

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 11 Hydref 2021 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6565
SeneddDCC@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol (13.00–13.30)

- 1 **Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**
13.30
- 2 **Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3**
13.30–13.35 (Tudalennau 1 – 2)
LJC(6)–09–21 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir
Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol drafft
 - 2.1 SL(6)055 – Rheoliadau'r Pwer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021
 - 2.2 SL(6)057 – Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021
- 3 **Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.**
13.35–13.40
Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol



3.1 SL(6)061 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021

(Tudalennau 3 – 7)

LJC(6)–09–21 – Papur 2 – Adroddiad drafft

LJC(6)–09–21 – Papur 3 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 1 Hydref 2021

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol drafft

3.2 SL(6)056 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021

(Tudalennau 8 – 9)

LJC(6)–09–21 – Papur 4 – Adroddiad drafft

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

3.3 SL(6)058 – Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2021

(Tudalennau 10 – 14)

LJC(6)–09–21 – Papur 5 – Adroddiad drafft

LJC(6)–09–21 – Papur 6 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 27 Medi 2021

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

13.40–13.45

4.1 SL(6)052 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 3) (Cymru) 2021

(Tudalennau 15 – 20)

LJC(6)–09–21 – Papur 7 – Adroddiad y Pwyllgor

LJC(6)–09–21 – Papur 8 – Ymateb Llywodraeth Cymru

5 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

13.45–13.50

5.1 SL(6)059 – Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

(Tudalen 21)

LJC(6)–09–21 – Papur 9 – Adroddiad drafft

[Cod](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

5.2 SL(6)060 – Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Cynnydd

(Tudalennau 22 – 23)

LJC(6)–09–21 – Papur 10 – Adroddiad drafft

[Cod](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

6 Papurau i'w nodi

13.50–13.55

6.1 Adroddiad Llywodraeth Cymru: Ymateb deddfwriaethol Gweinidogion Cymru i bandemig y coronafeirws

(Tudalennau 24 – 58)

LJC(6)–09–21 – Papur 11 – Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, 4 Hydref 2021

LJC(6)–09–21 – Papur 12 – Adroddiad Llywodraeth Cymru: Ymateb deddfwriaethol Gweinidogion Cymru i bandemig y coronafeirws

6.2 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Adroddiad blynyddol ar y cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol

(Tudalennau 59 – 82)

LJC(6)–09–21 – Papur 13 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 4 Hydref 2021

LJC(6)–09–21 – Papur 14 – Adroddiad blynyddol ar y cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol

6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) 2021

(Tudalennau 83 – 86)

LJC(6)–09–21 – Papur 15 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 27 Medi 2021

LJC(6)–09–21 – Papur 16 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig, 27 Medi 2021

6.4 Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Gweinidog Newid Hinsawdd: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

(Tudalennau 87 – 91)

LJC(6)–09–21 – Papur 17 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 1 Hydref 2021

LJC(6)–09–21 – Papur 18 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 24 Medi 2021

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

13.55

- 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd – trafod yr adroddiad drafft**
13.55–14.05 (Tudalennau 92 – 107)
LJC(6)–09–21 – Papur 19 – Adroddiad drafft
- 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar – trafod yr adroddiad drafft**
14.05–14.15 (Tudalennau 108 – 115)
LJC(6)–09–21 – Papur 20 – Adroddiad drafft
- 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 – trafod yr adroddiad drafft**
14.15–14.30 (Tudalennau 116 – 127)
LJC(6)–09–21 – Papur 21 – Adroddiad drafft
LJC(6)–09–21 – Papur 22 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Hydref 2021
- 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) – trafod yr adroddiad drafft**
14.30–14.45 (Tudalennau 128 – 136)
LJC(6)–09–21 – Papur 23 – Adroddiad drafft
LJC(6)–09–21 – Papur 24 – Llythyr at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 23 Mawrth 2021
- 12 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diogelwch Adeiladau**
14.45–15.00 (Tudalennau 137 – 157)
[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil Diogelwch Adeiladau](#)
[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol – Bil Diogelwch Adeiladau](#)
LJC(6)–09–21 – Papur 25 – Nodyn cyngor cyfreithiol

13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rheoli

Cymorthdaliadau

15.00–15.15

(Tudalennau 158 – 172)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil Rheoli Cymorthdaliadau](#)

LJC(6)–09–21 – Papur 26 – Nodyn cyngor cyfreithiol

14 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Pensiynau'r

Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol

15.15–15.25

(Tudalennau 173 – 176)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil Pensiynau'r Gwasanaeth](#)

[Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol](#)

LJC(6)–09–21 – Papur 27 – Nodyn cyngor cyfreithiol

15 Cytundebau rhyngwladol a drafodwyd ar 4 Hydref 2021 – trafod yr adroddiad drafft

15.25–15.30

(Tudalennau 177 – 184)

LJC(6)–09–21 – Papur 28 – Adroddiad drafft

LJC(6)–09–21 – Papur 29 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 4 Hydref 2021

LJC(6)–09–21 – Papur 30 – Llythyr at y Prif Weinidog, 20 Medi 2021

16 Dull strategol cylch gwaith a blaenraglen waith y Pwyllgor

15.30–15.45

(Tudalennau 185 – 194)

LJC(6)–09–21 – Papur 31 – Papur cynllunio strategol

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 11 Hydref 2021

SL(6)055 – Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Gwnaed [Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol \(Diben Masnachol\) \(Amodau\) \(Cymru\) 2021](#) ("y Rheoliadau") gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 28(4), 28(5)(b) a 28(6)(c) o Ddeddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Rheoliadau'n rhagnodi amodau ychwanegol y mae rhaid i brif gyngor eu bodloni cyn arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol i wneud pethau at ddiben masnachol. Rhaid i brif gyngor baratoi a chymeradwyo achos busnes i gefnogi arfer arfaethedig o'r pŵer. Yn ogystal, mae'n ofynnol i brif gyngor gyhoeddi unrhyw achos busnes a gymeradwyir yn unol â'r Rheoliadau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae'n ofynnol i brif gyngor adennill unrhyw gostau y mae'n mynd iddynt o ran unrhyw beth y mae'n ei gyflenwi i gwmni y mae'n arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol drwyddo, oddi wrth y cwmni hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r sefydliadau a'r personau hynny y mae'n debygol y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt.

Mae Gorchymyn 2021 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2021, a wnaed ar 3 Mawrth, yn dod â'r pŵer cyffredinol i rym ar gyfer prif gynghorau ar 1 Tachwedd 2021. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar yr un dyddiad.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar:

Yn dod i rym ar: 01 Tachwedd 2021



SL(6)057 – Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Gwnaeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) ddiwygio Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (“Deddf 1979”) trwy gyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer henebion cofrestredig yng Nghymru¹.

Mae cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn drefniant gwirfoddol ar gyfer rheoli un neu fwy o asedau hanesyddol dynodedig yn yr hirdymor. Mewn perthynas â henebion cofrestredig, gellir gwneud cytundebau o'r fath rhwng Gweinidogion Cymru a pherchennog heneb gofrestrdedig yng Nghymru neu berchennog tir sy'n ffinio â heneb gofrestrdedig o'r fath, neu yng nghyffiniau heneb gofrestrdedig o'r fath.

Er bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth wedi'i nodi yn Neddf 2016, roedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach (trwy reoliadau) ynghylch cynnwys cytundebau o'r fath a'r gweithdrefnau ar gyfer eu cytuno a'u terfynu.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer henebion cofrestredig yng Nghymru, gan ategu darpariaethau Deddf 1979.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar:

Yn dod i rym ar: 01 Ionawr 2022

¹ Hefyd, cyflwynodd Deddf 2016 gytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer adeiladau cofrestredig. Ymdrinnir â'r rhain yn Rheoliadau Adeiladau Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.



SL(6)061 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021 2021

Cefndir a diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio'r Rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol");
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/40 (Cy. 11)) ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr"); a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor.

Mae rheoliadau 3, 6 ac 8 yn gwneud darpariaeth i ddileu Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), sy'n cynnwys gwledydd y cyfeirir atynt yn gyffredin fel gwledydd 'rhestr werdd', a chyfeiriadau at yr Atodlen honno, o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 4 yn gwneud diwygiadau i reoliad 2A (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan gynnwys ychwanegu at y rhestr o wledydd perthnasol ym mharagraff (11) a chyflwyno gwledydd a thiriogaethau perthnasol pellach ym mharagraff newydd (12). Mae'r newidiadau hyn yn golygu:

- cydnabyddir dosau cymysg a brechiadau a geir o dan raglenni gwahanol penodol,
- mae'r gwledydd canlynol wedi'u hychwanegu at y rhestr o wledydd sydd â thystysgrif brechlyn a gydnabyddir: Awstralia, Antigua a Barbuda, Barbados, Bahrain, Brunei, Canada, Dominica, Israel, Japan, Kuwait, Malaysia, Seland Newydd, Qatar, Saudi Arabia, Singapore, De Korea, Taiwan a'r Emiraethau Arabaidd Unedig (Emiradau Arabaidd Unedig).

Mae rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 6A (gofyniad i feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn esemptio teithiwr rheoliad 2A o ofynion y rheoliad hwnnw.



Mae rheoliad 7 yn gwneud diwygiadau i'r gofynion sy'n gymwys i ddarparwyr profion preifat ym mharagraffau 1ZA a 2ZA o Atodlen 1C.

Mae rheoliad 9 yn diwygio Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ddiweddarau'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig Caiff unigolyn adael ynysiad er mwyn cystadlu neu hyfforddi, neu ddarparu hyfforddiant neu gymorth arall i berson sy'n cystadlu, mewn digwyddiad chwaraeon a bennir yn Atodlen 4. Mae'r newidiadau hyn yn ychwanegu tri digwyddiad at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon a bennir.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol. Mae'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn gosod gofynion ar bersonau sy'n gweithredu gwasanaethau teithwyr rhyngwladol ("gweithredwyr") sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn gosod gofynion ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodedig i deithwyr.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r wybodaeth iechyd y cyhoedd benodedig y mae rhaid i weithredwyr ei darparu i deithwyr cyn iddynt deithio i Gymru ac wrth iddynt deithio i Gymru.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: Craffu

Nodwyd y 3 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn



i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 1 Hydref 2021. Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch torri'r rheol:

"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn ar dudalen 2 y Memorandwm Esboniadol:

"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."

"Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr na'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. I'r graddau y gallant o bosibl gyffwrdd ag unrhyw hawliau o'r fath, mae'r Llywodraeth o'r farn bod yr ymyrraeth yn fach iawn ac y gellir ei chyfiawnhau fel ymyrraeth angenrheidiol a chymesur i gyflawni nod dilys. Nid yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a wneir gan y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y maent yn cyffwrdd â hawliau unigol."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."



Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

7 Hydref 2021



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament **Tudalen y pecyn 6**

Legislation, Justice and Constitution Committee



Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

1 Hydref 2021

Annwyl Elin

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym am 04:00 a.m. ar 4 Hydref 2021, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol 2020 drwy wneud y newidiadau canlynol:

- Cyfuno'r rhestrau oren a gwyrdd o wledydd a thiriogaethau;
- Dileu'r gofyniad am brawf cyn ymadael ar gyfer unigolion sydd wedi'u brechu'n llawn sy'n teithio o wledydd nad ydynt ar y rhestr goch;
- Diwygio'r diffiniad o deithwyr sydd 'wedi'u brechu'n llawn' yn Rheoliad 2A fel bod:
 - dosau cymysg a brechiadau a roddir o dan rai rhaglenni gwahanol yn cael eu cydnabod,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- y gwledydd canlynol yn cael eu hychwanegu at y rhestr o wledydd â threfn gydnabyddedig o ardystio brechiadau: Awstralia, Antigua a Barbuda, Barbados, Bahrain, Brunei, Canada, Dominica, Israel, Japan, Kuwait, Malaysia, Seland Newydd, Qatar, Saudi Arabia, Singapore, De Korea, Taiwan a'r Emiradau Arabaidd Unedig;
- Ychwanegu gofyniad i labordai diagnostig preifat anfon samplau ar gyfer dilyniannu genomig o fewn 24 awr i brosesu sampl;
- Ychwanegu tri digwyddiad at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig;
- Gwneud nifer o fân newidiadau canlyniadol neu dechnegol.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i adlewyrchu'r newidiadau i'r cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Eitem 3.2

SL(6)056 - Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021

Cefndir a Diben

Yn sgil Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") diwygiwyd Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990") trwy gyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer adeiladau rhestredig yng Nghymru.¹

Mae cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn drefniant gwirfoddol ar gyfer rheoli un neu fwy o asedau hanesyddol dynodedig yn yr hirdymor. Mewn perthynas ag adeiladau rhestredig, gellir gwneud cytundebau o'r fath rhwng perchennog adeilad rhestredig a naill ai'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru.

Er bod y fframwaith deddfwriaethol gwreiddiol ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth wedi'i nodi yn Neddf 2016, roedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch cynnwys cytundebau o'r fath a'r gweithdrefnau ar gyfer eu cytuno a'u terfynu.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer henebion cofrestredig yng Nghymru, gan ategu darpariaethau Deddf 1979.

Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

¹ Hefyd yn sgil Deddf 2016 cyflwynwyd cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer henebion cofrestredig. Ymdrinnir â'r rhain yn Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.



Mae rheoliad 6(4) yn darparu:

"(4) A date specified in accordance with paragraph (2)(a) as the date by which representations must be received..." [pwyslais wedi ei ychwanegu]

Mae pob un o'r is-baragraffau yn rheoliad 6(4) yn cyfeirio at is-baragraff cyfatebol yn rheoliad 6(2) (hynny yw, mae (4)(a) yn cyfeirio at (2)(a), mae (4)(b) yn cyfeirio at (2)(b) ac ati). Mae pob un yn nodi dull gwahanol ar gyfer cyfrifo'r dyddiad ar gyfer derbyn sylwadau, gan ddibynnu ar ba is-baragraff ym mharagraff (2) sy'n berthnasol.

Ymddengys y dylai'r cyfeiriad at baragraff (2)(a) fod yn gyfeiriad at baragraff (2) yn fwy cyffredinol, i adlewyrchu'r ffaith bod pob un o'r is-baragraffau ym mharagraff (2) yn ei gwneud yn ofynnol nodi dyddiad perthnasol, nid paragraff (2)(a) yn unig.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

4 Hydref 2021



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 9

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 3.3

SL(6)058 – Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2021

Cefndir a diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth ym maes rheolaethau bioddiogelwch ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid, fel rhan o ddull ar draws Prydain gyfan.

Effaith y Rheoliadau hyn fydd gohirio pellach wrth gyflwyno archwiliadau dogfennol a ffisegol mewn safleoedd rheoli ffiniau yng Nghymru, mewn cysylltiad â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforiwyd. Bydd gwiriadau o'r fath bellach yn cael eu cyflwyno'n raddol rhwng 1 Ionawr 2022 a 1 Gorffennaf 2022.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn y bydd y Rheoliadau hyn yn arwain at ohirio pellach wrth gyflwyno archwiliadau dogfennol a ffisegol mewn safleoedd rheoli ffiniau yng Nghymru, mewn cysylltiad â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforiwyd, fel rhan o ddull ar gyfer Prydain gyfan. Bydd gwiriadau o'r fath bellach yn cael eu cyflwyno'n raddol rhwng 1 Ionawr 2022 a 1 Gorffennaf 2022.

Mae cyflwyno'r gwiriadau hyn bellach wedi'i ohirio sawl gwaith, yn wreiddiol tan 1 Ebrill 2021, yna tan 31 Gorffennaf 2021, yna tan 1 Hydref 2021 a nawr tan 1 Ionawr 2022.



O ran y gohirio, nodwn yr hyn a ddywed Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau:

"Yn dilyn adolygiad gan swyddogion o'r cynllun gweithredu ar gyfer rheolaethau mewnforio gan gynnwys gwiriadau lechydol a Ffotoiechydol ar anifeiliaid byw a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, mae penderfyniad wedi'i wneud i ohirio cyflwyno gwiriadau dogfennol a gwiriadau ffisegol mewn Safleoedd Rheoli dynodedig ar y Ffin. Mae hyn oherwydd bod busnesau ac awdurdodau cymwys, ers diwedd y cyfnod pontio, wedi gorfod addasu a bodloni gofynion sylweddol newydd yr UE a'r DU wrth symud nwyddau o dan y berthynas fasnachu newydd â'r UE. Er bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan swyddogion Llywodraethau'r DU a Chymru a'u hasiantaethau cyflawni, i baratoi ar gyfer y mesurau rheoli newydd hyn wedi mynd rhagddo ers gwneud y newid diwethaf i'r ddeddfwriaeth berthnasol, pery'r un problemau o ran darparu seilwaith a pharodrwydd gweithredwyr.

Mae hyn yn ategu'r amserlen ddiwygiedig sy'n gohirio cyflwyno gofynion rhaghysbysu, gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol mewn Safleoedd Rheoli dynodedig ar y Ffin. Bydd y mesurau rheoli hyn ar y ffiniau'n cael eu cyflwyno fesul cam (y cyfnod graddoli trosiannol), o 1 Ionawr 2021 hyd 1 Gorffennaf 2022.

Bydd yr amserlen ddiwygiedig hon yn rhoi mwy o amser i fusnesau ac awdurdodau cymwys baratoi wrth iddynt addasu i'r berthynas fasnachu newydd ac adfer yn sgil effeithiau hirach a dyfnach pandemig COVID-19."

Hefyd, dywed y Memorandwm Esboniadol y byddai'n well gan randdeiliaid y diwydiant i'r gwiriadau dogfennol a'r gwiriadau ffisegol ar gyfer Prydain gael eu cyflwyno'n gynharach yn hytrach nag yn hwyrach, gan fod mewnforion o Brydain wedi wynebu gwiriadau mewnforio o'r fath gan yr UE ers mis Ionawr 2021. Nodwn fod yr ymgynghoriad ar gyfer Prydain gyfan ar y Rheoliadau hyn wedi amlygu'r angen i lywodraethau roi eglurder ar drefniadau ffiniau yn y dyfodol ar fewnforion ac ar allforion, ond roeddent yn dangos bod consensws eang bod yr oedi hwn yn angenrheidiol.

O ran ymgynghoriad ynghylch yr oedi pellach, mae Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau yn nodi fel a ganlyn:

"Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar 17 Medi 2021 i holi rhanddeiliaid am eu barn am oedi rhoi trefn fewnforion Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2021 ar waith. Gofynnwyd a oedd y rhanddeiliaid yn cytuno â'r oedi neu a oeddent yn credu y dylai'r amserlen a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer cyflwyno'r rheolaethau SPS llawn, ddod i rym yn unol â'r bwriad o 1 Hydref 2021.

Ychydig o ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn. Ond yn ôl y sgysiau rydym yn eu cael yng Nghymru, rydyn ni'n deall y byddai'n well gan randdeiliaid y diwydiant weld cyflwyno rheolaethau Prydain Fawr ar fewnforion o'r UE ynghynt na chwedyn, gan eu bod yn teimlo ar y cyfan ei bod yn annheg bod allforion o Brydain Fawr wedi gorfod



wynebu rheolaethau o'r fath gan yr UE ers Ionawr 2021. Roedd ymatebion rhanddeiliaid ehangach yn dangos bod angen i lywodraeth ddangos eglurder ynghylch y trefniadau ar y ffin yn y dyfodol, o ran mewnfurion ac allforion, ond gwelwyd consensws bras a chyffredinol bod y newidiadau a ddaw gyda'r OS hwn i amserlen y rheolaethau yn angenrheidiol er mwyn i'r sector fod yn barod. Gallai peidio â rhoi'r newidiadau hyn ar waith erbyn diwedd mis Medi fel y gwnâi'r offeryn hwn, yn creu gofynion na fyddai'r mewnfurwyr yn gallu'u bodloni ac na fyddai'r awdurdodau cymwys yn gallu'u cyflawni."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

1 Hydref 2021



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament **Tudalen y pecyn 12**

Legislation, Justice and Constitution Committee



Ein cyf/Our ref: MA/LG/3005/21

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru

27 Medi 2021

Annwyl Elin,

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2021

Heddiw rwyf wedi gwneud Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2021 drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 1(1) o Atodlen 2, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a daw i rym ar 29 Medi.

Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol yr wyf yn bwriadu ei osod gerbron pan fydd wedi'i gofrestru.

Yn unol â pharagraff 7(3) a 7(4) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, rhaid i'r offeryn hwn gael ei osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo erbyn 24 Hydref 2021 er mwyn iddo barhau mewn grym.

O dan yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol a gall y Pwyllgor Busnes bennu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno. Gall fod yn ddefnyddiol ichi wybod fy mod yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn am yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ar 19 Hydref.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

SL(6)052 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 3) (Cymru) 2021

Cefndir a Diben

Mae Adran 81 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") ac Atodlen 29 iddi yn darparu gwarchodaeth rhag troi allan drwy gynyddu'r cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlord ei roi i denant wrth geisio adennill meddiant. Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn ymestyn tan 31 Rhagfyr 2021 (o'r dyddiad terfynu blaenorol sef 30 Medi 2021) y cyfnod pan fydd yn rhaid rhoi mwy o hysbysiad i denantiaid, a bydd hyn yn berthnasol i denantiaid sy'n cael tenantiaethau o dan Ddeddf Rhenti 1977 a Deddfau Tai 1985, 1988 a 1996.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 29 i Ddeddf 2020 ("Atodlen 29"). Mae Atodlen 29 yn addasu darpariaethau statudol amrywiol, sy'n ymwneud â hysbysuadau y mae angen eu rhoi er mwyn ceisio adennill meddiant o anheddau, yn ystod "y cyfnod perthnasol". Roedd y ddarpariaeth a wneir gan Atodlen 29 i ddod i ben yn wreiddiol ar 30 Medi 2020 (ar ddiwedd y cyfnod perthnasol). Fodd bynnag, oherwydd y pandemig parhaus, mae'r "cyfnod perthnasol" wedi cael ei ymestyn sawl gwaith gan reoliadau dilynol. Ymestynnodd rheoliadau'r cyfnod mewn perthynas â Chymru tan 31 Mawrth 2021, tan 30 Mehefin 2021, ac yna tan 30 Medi 2021. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 1(1)(b)(ii) ymhellach fel bod Atodlen 29 yn cael effaith, o ran Cymru, hyd at 31 Rhagfyr 2021.

Gweithdrefn

Gwneud Negyddol.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.



Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 22 Medi 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

"Yng ngoleuni parhad y pandemig, a'r cynnydd yn nifer yr achosion a nifer y derbyniadau a chyfnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar, mae Gweinidogion Cymru wedi dod i'r casgliad bod angen brys o hyd i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o denantiaid mewn perygl o gael eu troi allan o'u cartrefi. Bydd hyn yn helpu i gyfyngu ar y Coronafeirws, lleihau'r baich ar staff rheng flaen, a sicrhau bod tenantiaid yn cael cymorth priodol. Mae'r Rheoliadau'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddiwallu'r angen brys hwnnw. Er mwyn sicrhau bod darpariaethau Atodlen 29 yn parhau i fod yn gymwys ar ôl 30 Medi, daw'r Rheoliadau i rym ar 30 Medi.. Oherwydd y brys, nid yw'r Rheoliadau wedi bod yn destun ymgynghoriad ac ni chafwyd amser i gynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â nhw."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae hawliau landlordiaid o dan Erthygl 1 o Brotocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("A1P1") yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Pwyllgor yn nodi na fydd y Rheoliadau ond yn estyn y cyfnod perthnasol am gyfnod penodedig (hyd at 31 Rhagfyr 2021).

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

Mae paragraff 4.4 yn nodi: "Ers i'r cyfnod perthnasol gael ei ymestyn ddiwethaf, gwelwyd gwelliannau mewn perthynas â'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd o ganlyniad i lwyddiant y rhaglen frechu. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yn ddiweddar yn nifer yr achosion, sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y derbyniadau a chyfnodau yn yr ysbyty, er eu bod ar gyfradd lawer is nag a oedd yn wir cyn cyflwyno'r rhaglen frechu. Mae'r amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer y tymor byr i ganolig yn dangos y bydd achosion yn parhau i godi am beth amser. Felly, gan fod y feirws unwaith eto'n cael ei ledaenu'n eang yn y gymuned, bydd gohirio troi pobl allan yn parhau i helpu i reoli cyfradd trosglwyddo'r feirws."

Yn gyffredinol, mae'r feirws yn dal i fod yn fygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd, a fyddai'n cynyddu'n sylweddol pe bai'r don bresennol o achosion yn digwydd ar yr un pryd â thon sydyn o achosion o droi pobl allan o'u cartrefi, a chynnydd mewn digartrefedd o ganlyniad i hynny. Bydd hyn yn parhau i fod yn wir wrth inni symud i fisoedd y gaeaf, lle gall effaith Covid-19, ar y cyd ag achosion newydd posibl o'r fflw i phwysau arferol eraill y gaeaf, roi'r gwasanaeth iechyd dan straen sylweddol. O dan yr amgylchiadau hyn, ystyrir ei bod yn briodol i barhau i gymryd camau i gyfyngu ar y



perygl o gynnydd sydyn yn yr achosion o droi pobl allan o'u cartrefi er mwyn parhau i ddiogelu iechyd y cyhoedd."

Gan ystyried y sylwadau uchod, mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyfyngiadau eisoes wedi'u gosod ar Landlordiaid am gyfnod sylweddol o amser. Roedd y cyfyngiadau a gynhwyswyd yn wreiddiol yn Neddf y Coronafeirws ym mis Ebrill 2020 wedi'u gosod ar landlordiaid hyd at 30 Medi 2020. Er i Lywodraeth Cymru ystyried ei bod yn gymesur ymestyn y "cyfnod perthnasol" ar dri achlysur blaenorol oherwydd y pandemig, mae'r amgylchiadau wedi newid yn sylweddol ers hynny ac adlewyrchwyd hyn gan ddeddfwriaeth sydd wedi lleihau'r lefel rhybudd ledled Cymru gyfan i lefel rhybudd Sero. Mae'r cyfyngiadau wedi'u llacio mewn sawl sector yn sgil hynny. Hoffai'r Pwyllgor gael tystiolaeth bellach gan Lywodraeth Cymru i ddangos bod y camau sy'n cael eu cymryd nawr yn parhau i fod yn gymesur ar sail hawliau dynol.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau eraill cyn penderfynu estyn y cyfyngiadau presennol am dri mis arall. Mae Opsiwn B yn y Memorandwm Esboniadol yn ystyried y posibilrwydd o gymryd camau mwy graddol a chymesur mewn perthynas â landlordiaid o ystyried bod y darlun cyffredinol o ran iechyd y cyhoedd wedi gwella.

Mae'n nodi "...gan gydnabod yr effaith gadarnhaol y mae'r rhaglen frechu wedi'i chael ar y sefyllfa o ran iechyd y choedd, gellid dadlau ei bod yn briodol dechrau cwtogi'r cyfnodau hysbysu yn nes i'r hyn oeddent cyn Covid."

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Lloegr wedi defnyddio dull mwy graddol (nad yw'n annhebyg i'r opsiwn uchod) i ystyried y gwelliannau o ran y risgiau i iechyd y cyhoedd ac i gynnig ateb cymesur i'r ffordd y gall landlordiaid droi eu tenantiaid allan. Mae'r Rheoliadau yn Lloegr wedi'u drafftio mewn ffordd sy'n lleihau'r cyfnodau rhybudd yn raddol o chwe mis i ddeufis neu bedwar mis yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac a oes bai ar y tenant neu a ydynt yn achosion o droi allan heb fai. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau yn Lloegr yn nodi *"this is to ensure that the measures remain proportionate to the public health risks."*

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r opsiynau a'r rhesymau a roddir yn y Memorandwm Esboniadol a hoffai i Lywodraeth Cymru ymhelaethu ar y dull deddfwriaethol a gymerir yn y Rheoliadau hyn a chyfiawnhau'r dull hwnnw. Yn benodol, a all Llywodraeth Cymru egluro pam na ddefnyddiodd ddull graddol tebyg i'r un a ddefnyddiwyd yn Lloegr, o gofio effaith gadarnhaol y rhaglen frechu.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.



Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ganlyniad i'r argyfwng, nid yw wedi bod yn bosibl cynnal unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn ac nid oes gofyniad statudol i wneud hynny. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru gysylltiadau cadarn â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector tai; mae cyrff sy'n cynrychioli landlordiaid wedi ymgysylltu'n anffurfiol ar ddiben ac effaith y Rheoliadau hyn."

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn a bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

"Mae argyfwng COVID-19 a'r brys i baratoi'r Rheoliadau hyn yn golygu nad oedd hi'n bosibl paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol meintioledig."

6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y cyfnod (tua 12 wythnos) pan fydd landlord yn ddarostyngedig i'r cyfnodau hysbysu estynedig y mae'n rhaid eu rhoi er mwyn ceisio adennill meddiant o'u heiddo, a bydd y cyfnodau estynedig hynny'n gymwys pan fo landlord yn dymuno ceisio adennill meddiant am nad yw'r tenant wedi talu'r rhent. Mae'r Rheoliadau hyn, ynghyd â'r darpariaethau a wnaed gan Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws*) 2021 a Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws*) 2021 (sy'n atal, ac eithrio mewn amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwarant meddiant neu ddanfôn hysbysiad troi allan), yn golygu y bydd landlordiaid wedi bod yn destun nifer o gyfyngiadau o ran adennill meddiant am gyfnod sylweddol o amser. Fel y mae'r Pwyllgor wedi nodi'n flaenorol, gall hyn arwain at anawsterau ariannol i rai landlordiaid yn y sector rhentu preifat, yn enwedig landlordiaid ar raddfa fach a allai ddibynnu ar eu hincwm rhent i dalu am daliadau morgais neu fel eu hunig ffynhonnell incwm. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor yn hyn o beth o ran Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) 2021. Yn yr ymateb hwnnw, cydnabu Llywodraeth Cymru yr effaith economaidd niweidiol bosibl ar landlordiaid, ond nododd fod y gefnogaeth a ganlyn wedi cael ei rhoi i landlordiaid a'r sector ehangach:

- *"£4.1 miliwn i ychwanegu at gyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, i helpu'r rhai sy'n cael budd-daliadau tai sydd ag ôl-ddyledion rhent;*



- *Ariannu Llinell Gymorth Dyledion y Sector Rhentu Preifat i gynghori a chefnogi tenantiaid y sector preifat sy'n cael trafferth o ran rhent, incwm a budd-daliadau tai – llinell gymorth a gaiff ei darparu gan Cyngor ar Bopeth Cymru;*
- *£166 miliwn o gyllid i awdurdodau lleol yn 2021-22 drwy'r Grant Cymorth Tai i ddarparu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Mae'r gwasanaethau'n helpu i atal pobl rhag dod yn ddiartref, sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu helpu pobl a allai fynd yn ddiartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.*
- *Darparu cyllid ychwanegol trwy'r Gronfa Cymorth Dewisol;*
- *Ein cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth sy'n sicrhau bod benthyciadau cost isel ar gael i denantiaid yn y sector preifat a ddiodeffodd newid incwm dros dro ac a aeth i ddyled gyda'r rhent;*
- *Cyllid ar gyfer Shelter Cymru i gynghori a chefnogi tenantiaid.*
- *Bydd ein Grant Caledi Tenantiaeth newydd yn cefnogi tenantiaid y sector rhentu preifat yng Nghymru sydd ag ôl-ddyledion rhent sylweddol o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig."*

O ystyried y diffyg ymgynghori, absenoldeb asesiad effaith reoleiddiol a'r ffaith bod y rheoliadau hyn yn dod i rym ar fyr rybudd, a thrwy hynny'n torri'r rheol 21 diwrnod, pa gamau, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd ymhellach i'r mesurau a restrir yn yr ymateb blaenorol i liniaru effeithiau economaidd y Rheoliadau hyn ar landlordiaid.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pwyntiau 2, 3 a 6 o ran rhinweddau.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 4 Hydref 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 3) (Cymru) 2021

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:

Ymateb

Fel y mae'r Pwyllgor wedi ei nodi, pennir y sail resymegol ar gyfer y penderfyniad ym mharagraff 4.4 o'r Memorandwm Esboniadol, ac fe'i crynhoir eto ym mharagraff 6.12. Mae paragraffau 6.8 a 6.18 yn nodi effeithiau ariannol ac economaidd posibl y Rheoliadau ar landlordiaid ac eraill ond maent hefyd yn nodi'r pethau hynny sy'n helpu i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei bodloni bod y Rheoliadau yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:

Ymateb

Mae paragraff 6.12 o'r Memorandwm Esboniadol yn datgan 'o ystyried y cynnydd diweddar a ragwelwyd o ran nifer yr achosion a nifer y derbyniadau a chyfnodau yn yr ysbyty, parhau â'r cyfnodau hysbysu chwe mis sy'n debygol o gefnogi orau yr amcanion o gyfyngu ar y feirws a'i arafu, lleihau'r baich ar staff y rheng flaen, a chefnogi pobl. Yn benodol, mae'r pryderon ynghylch ton arall ynghyd â'r effaith a ddisgwylir ar y gwasanaeth iechyd yn sgil pwysau arferol y gaeaf, yn gymhelliad i weithredu'n fwy gofalus.'

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi bod dull gweithredu mwy gofalus hefyd yn cael ei ddilyn yn yr Alban, lle y mae'r cyfnod hysbysu ar gyfer y rhan fwyaf o seiliau (gan gynnwys ôl-ddyledion rhent) wedi ei estyn i chwe mis hyd at 31 Mawrth 2022, ac yng Ngogledd Iwerddon, lle y bydd cyfnodau hysbysu hirach o ddeuddeg wythnos yn parhau i fod yn eu lle hyd at fis Mai 2022.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 6:

Ymateb

Bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi bod y Grant Caledi Tenantiaeth wedi ei gyflwyno'n swyddogol ers i Lywodraeth Cymru roi ei hymateb blaenorol. Mae'r Grant yn cefnogi tenantiaid sydd ag ôl-ddyledion rhent yn ddyledus i'w landlordiaid, ac a gronnwyd o ganlyniad i Covid-19 hyd at fis Mehefin 2021, ac yn lliniaru rhai o effeithiau economaidd y Rheoliadau ar landlordiaid, yn enwedig gan y telir y grant yn uniongyrchol i landlordiaid ar ran y tenant sy'n gwneud cais.

Mae'r Grant Caledi Tenantiaeth wedi disodli'r Benthyciad Arbed Tenantiaeth. Yn achos tenantiaid sydd eisoes wedi cael benthyciad drwy'r cynllun, bydd eu benthyciad yn cael ei droi'n grant.

SL(6)059 - Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig

Cefndir a Diben

Mae'r [Cwricwlwm i Gymru - Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig](#) ("y Cod") yn rhoi dyletswydd statudol ar ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod eu gwaith o ddylunio a chynllunio cwricwlwm o dan Fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnwys ac yn defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a nodir yn y Cod.

Mae'r Cod yn nodi 27 o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws y chwe maes dysgu a phrofiad y mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir a phob lleoliad a ariennir nas cynhelir seilio eu cwricwlwm arnynt.

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn nodi'r chwe maes dysgu, sef y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae Adran 6 o'r Ddeddf yn nodi na fydd cwricwlwm nac addysgu a dysgu yn cwmpasu maes dysgu a phrofiad oni fydd yn cwmpasu'r cysyniadau hynny a nodir yn y Cod.

Gweithdrefn

Drafft negyddol. Oni bai bod y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'w osod, bydd y Cod Ymarfer yn dod i rym ym mis Medi 2022.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7(iv) mewn perthynas â'r cod hwn.

1. Ni fwriedir i'r Cod ddod i rym tan fis Medi 2022. Mae'r Pwyllgor yn nodi o'r Memorandwm Esboniadol fod hyn er mwyn caniatáu diweddaru canllawiau yn unol â'r Cod "*er mwyn rhoi mwy o amser i ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cyngor hwnnw i lywio eu gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm drwy gydol blwyddyn academaidd 2021/22*". Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach y bydd diweddariadau i ganllawiau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
5 Hydref 2021



Eitem 5.2

SL(6)060 - Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Cynnydd

Cefndir a Diben

Datblygwyd [Y Cwricwlwm i Gymru - Y Cod Cynnydd](#) ("y Cod") o dan adran 7 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf). Mae'r Cod yn nodi'r ffyrdd y mae rhaid i gwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer pob dysgwr. Ni fydd addysgu a dysgu yng nghwricwlwm ysgol a lleoliad yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd priodol oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod hwn. At hynny, ni fydd cwricwlwm yn cwmpasu'n llawn y meysydd dysgu a phrofiad (y Meysydd) oni bai ei fod yn adlewyrchu cynnydd priodol ac oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod Cynnydd.

Mae'r Cod yn nodi'r 5 egwyddor gyffredinol o gynnydd sy'n rhychwantu gofynion y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â'r egwyddorion cynnydd mwy penodol ar gyfer pob un o'r Meysydd y mae rhaid i bob ysgol a gynhelir a phob lleoliad a ariennir nas cynhelir seilio eu cwricwlwm arnynt. Mae'r egwyddorion cynnydd hyn yn rhan o Fframwaith Cwricwlwm Cymru.

03/03/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-21)	Cyfarwyddydau Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygio) 2021	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

Dyddiad gwnaed	Math o ddeddfwriaeth	Teitl	Deddf(au) galluogi
03/03/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-22)	Cyfarwyddydau Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygio) 2021	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
04/02/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 254 (Cy. 67)	Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2021	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
05/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 251 (Cy. 65)	Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) (Diwygio) 2021	Deddf Mabwysiadu a Phlant 2020
05/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 253 (Cy. 66)	Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
09/03/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-22)	Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – Costau Mangre) (Cymru) (Diwygio) 2021	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
12/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 305 (Cy. 78)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
12/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 307 (Cy. 79)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
15/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 316 (Cy. 79)	Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Atal Dros Dro: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
16/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 325 (Cy. 84)	Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
17/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 340 (Cy. 94)	Gorchymyn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Estyn y Cyfnod Adolygu) (Cymru) (Coronafeirws) 2021	Deddf Tai (Cymru) 2014

Dyddiad gwnaed	Math o ddeddfwriaeth	Teitl	Deddf(au) galluogi
18/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 357 (Cy. 108)	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2021	Deddf Llywodraeth Leol 2000
19/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 361 (Cy. 110)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
22/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 377 (Cy. 118)	Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
23/03/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-31)	Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio COVID-19 Brechlyn Rhydychen/AstraZeneca) (Diwygio) 2021	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
23/03/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-32)	Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio COVID-19 Brechlyn Moderna) 2021	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
24/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 395 (Cy. 126)	Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021	Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
24/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 399 (Cy. 128)	Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2021	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
26/03/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-35)	Hysbysiad Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) (Rhif 4) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
26/03/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-36)	Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) (Rhif 3) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
26/03/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-37)	Hysbysiad addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 (Cymru) (Rhif 4) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
26/03/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-38)	Hysbysiad Addasu a Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
26/03/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 413 (Cy. 133)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

Dyddiad gwnaed	Math o ddeddfwriaeth	Teitl	Deddf(au) galluogi
08/04/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 454 (Cy. 144)	Rheoliadau Diogelu lechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021	Deddf lechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
09/04/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 457 (Cy. 145)	Rheoliadau Diogelu lechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2021	Deddf lechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
22/04/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 500 (Cy. 149)	Rheoliadau Diogelu lechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021	Deddf lechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
22/04/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-45)	Hysbysiad Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) (Rhif 5) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
22/04/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-47)	Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) (Rhif 4) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
22/04/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-46)	Hysbysiad Addasu a Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru (Rhif 2) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
22/04/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif WG21-44)	Hysbysiad addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 (Cymru) (Rhif 5) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
23/04/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 502 (Cy. 150)	Rheoliadau Diogelu lechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021	Deddf lechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
29/04/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 542 (Cy. 154)	Rheoliadau Diogelu lechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2021	Deddf lechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
11/05/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 568 (Cy. 156)	Rheoliadau Diogelu lechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2021	Deddf lechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
14/05/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 583 (Cy. 160)	Rheoliadau Diogelu lechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021	Deddf lechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

Dyddiad gwnaed	Math o ddeddfwriaeth	Teitl	Deddf(au) galluogi
14/05/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 584 (Cy. 161)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
23/05/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 612 (Cy. 163)	Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2021	Deddf Addysg 1996; 1997 a 2002
04/06/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 668 (Cy. 169)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
06/06/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 669 (Cy. 170)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
08/06/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 668 (Cy. 169)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
18/06/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 722 (Cy. 183)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
25/06/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 765 (Cy. 187)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
25/06/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol 2021 (rhif WG21 - 55)	Hysbysiad Datgymhwysio Gofynion Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) (Rhif 6) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
25/06/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol 2021 (rhif WG21 - 56)	Hysbysiad Addasu a Datgymhwysio Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru (Rhif 4) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
25/06/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol 2021 (rhif WG21 - 58)	Hysbysiad addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 (Cymru) (Rhif 7) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
25/06/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol 2021 (rhif WG21 - 57)	Hysbysiad Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) (Rhif 7) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020

Dyddiad gwnaed	Math o ddeddfwriaeth	Teitl	Deddf(au) galluogi
12/07/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 826 (Cy. 193)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
15/07/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 850 (Cy. 198)	Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Dod i Ben yn Gynnar: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
16/07/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 862 (Cy. 201)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
16/07/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 863 (Cy. 202)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
19/07/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 867	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
29/07/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol 2021 (rhif WG21 - 65)	Cynllun Imiwneiddio COVID-19 Gofal Sylfaenol – Pfizer BioNtech	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
30/07/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 915 (Cy. 208)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
06/08/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 925 (Cy. 209)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
06/08/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 926 (Cy. 211)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
23/08/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 952 (Cy. 217)	Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020

<i>Dyddiad gwnaed</i>	<i>Math o ddeddfwriaeth</i>	<i>Teitl</i>	<i>Deddf(au) galluogi</i>
27/08/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 967 (Cy. 227)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
27/08/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 970 (Cy. 228)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

04 Hydref 2021

Annwyl Gadeirydd

Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-Sefydliadol: Adroddiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol 2020-21

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'n cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i rannu copi gyda chi a'r Pwyllgor, o'r adroddiad blynyddol ar gysylltiadau rhynglywodraethol. Cyhoeddwyd yr adroddiad gerbron y Senedd a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae ar gael yma: https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021?_ga=2.218902367.71857826.1632928678-280837158.1617035190

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru: adroddiad blynyddol 2020 i 2021

Adroddiad blynyddol ar y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Medi 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 28 Medi 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021.html> i weld y fersiwn diweddar.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cyflwyniad

Crynodeb

Cysylltiadau rhynglywodraethol

Blaenoriaethau a rhagolygon

Cyflwyniad

1. Ddechrau 2019, cymeradwyodd Senedd a Llywodraeth Cymru gytundeb ar y **cysylltiadau rhyng-sefydliadol**. Mae'r cytundeb yn cynnwys y prif addewidion canlynol:
 - rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y cysylltiadau rhynglywodraethol ffurfiol gan gynnwys fforymau'r Gweinidogion; (a chyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol ar lefel Gweinidogion, concordatiau, cytundebau a memoranda cyd-ddealltwriaeth)
 - darparu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r gwaith sy'n ymwneud â chysylltiadau rhynglywodraethol yn ystod y flwyddyn.
2. Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn rheolaidd yn y cyfarfod llawn, ac mewn pwyllgorau a thrwy ddatganiadau a gohebiaeth. Mae ein gohebiaeth, sy'n rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am gyfarfodydd a chytundebau rhynglywodraethol, ar gael ar **wefan y Senedd**.

Crynodeb

3. Mae'r rôl y mae Llywodraeth Cymru yn ei chyd-chwarae yn llywodraethiant y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rhynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Deyrnas Unedig wedi dod yn fwyfwy amlwg o ganlyniad i'r Cyfnod Pontio Ewropeaidd a COVID-19. Felly hefyd yr angen i gryfhau datganoli a sicrhau dyfodol yr Undeb. Mae'r berthynas rhyngom ni a'r llywodraethau datganoledig eraill yn gadarn. Gallwn ddweud yr un fath am ein perthynas â gweinyddiaethau aelodau'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig y tu allan i'r DU. Ar y llaw arall, mae dirywiad dramatig wedi bod yn ein perthynas ni â Llywodraeth y DU. Fe allwn ni gydweithio, ac mae'r ffordd rydym wedi ymgysylltu wrth ymateb i'r pandemig wedi dangos hyn. Mae hyn yn wir hefyd am y ffordd rydym wedi mynd ati i weithredu wrth ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Ond, byddai'r cydweithio hwn yn well pe bai gennym ni fecanweithiau rhynglywodraethol cadarn, wedi eu diwygio. Byddai modd inni ymgysylltu'n rheolaidd ac yn ddibynadwy, gan sicrhau parch rhwng y naill ochr a'r llall.

4. Mae gennym ni rai enghreifftiau defnyddiol o gydweithio. Ers dechrau'r flwyddyn newydd, cafodd patrwm rheolaidd a dibynadwy o gyfarfodydd eu cynnal rhwng y llywodraethau datganoledig a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn. Mae wedi bod yn ddefnyddiol i gael y cyfle i ystyried materion rhynglywodraethol eraill sy'n codi fel rhan o fusnes arferol yn ystod y cyfarfodydd hynny. Rydym hefyd yn cymryd rhan yng ngwaith y Gydganolfan Bioddiogelwch, ar y cyd â'r tair gwlad arall. Nod y ganolfan hon yw dadansoddi, asesu a rhoi cyngor gwrthrychol, ac mae'r cwbl yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r gwaith hwn yn helpu i wneud penderfyniadau, yn lleol ac yn genedlaethol, wrth ymateb i achosion o COVID-19. Enghraifft arall hefyd o'r ffordd rydym yn gallu gwneud pethau'n dda gyda'n gilydd yw'r rhaglen frechu. Rydym wedi cael cytundeb ynglŷn â chaffael y brechlynnau yn ganolog, a'u rhannu ar draws y DU ar sail y boblogaeth, gyda phob gwlad unigol yn rheoli'r broses o roi'r brechlynnau. Rydym hefyd wedi cydweithio ar Fframweithiau Cyffredin, gyda chytundeb dros dro, a'r gobaiith yw y bydd gennym gytundeb terfynol yn hwyrach yn ystod y flwyddyn.
5. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld Cymru gref mewn Teyrnas Unedig lwyddiannus. Mae angen inni ailosod y cysylltiadau rhynglywodraethol, a gwneud hynny ar sail gweledigaeth o DU sydd wedi ei diwygio a'i chryfhau, lle y mae pob llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd er budd pawb.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddar.
Tudalen 62
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cysylltiadau rhynglywodraethol

Y cyfansoddiad a datganoli

6. Diolch i'r Cyfnod Pontio Ewropeaidd a COVID-19, mae pobl wedi cael mwy o wybodaeth am y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau sydd gan y Senedd a Llywodraeth Cymru fel rhan o drefniadau llywodraethiant y DU, ac, o ganlyniad, maen nhw'n deall y sefyllfa yn well hefyd. Mae'r angen i gryfhau datganoli er mwyn sicrhau dyfodol yr Undeb hefyd wedi dod i'r amlwg. Nid oes amheuaeth bod COVID-19 wedi rhoi llwyfan i ddatganoli yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Mae pobl ym mhob cwr o'r DU yn awr yn gallu gwerthfawrogi'n well beth yn union y mae'n ei olygu i gael pedair llywodraeth a phedair deddfwrfa yn y DU, a sut yn union y mae pwerau'r holl sefydliadau hyn yn rhyngweithio â'i gilydd.
7. Yn ystod 2020, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei phwerau yn gadarn ac yn hyderus i liniaru effeithiau gwaethaf y pandemig ar ein dinasyddion, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi. Dangosodd y pandemig ein bod yn gallu dilyn ein trywydd ein hunain, yn ogystal â bod angen inni gydweithio ag eraill: ymreolaeth a chydreolaeth. Mae datganoli wedi ei hen sefydlu erbyn hyn – mae wedi ei gymeradwyo gan y bobl, a'i barhad wedi ei ymgorffori mewn cyfraith. Yn ei dro, mae mwy o angen eto i ddiwygio yn sgil COVID-19, er mwyn delio gydag effeithiau a goblygiadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'n hadferiad o'r pandemig.
8. Mae'r ffordd rydym wedi ymateb i'r pandemig wedi darparu rhagor o dystiolaeth – a thystiolaeth gryfach – sy'n atgyfnerthu'r hyn a gynigiwyd gennym yn Diwygio ein Hundeb. Yn ystod y pandemig, gwelwyd enghreifftiau o arferion da, gan gynnwys y rhaglen frechu a'r ymgysylltu rhwng y llywodraethau drwy waith y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch. Ond toredig, tameidiog ac ad hoc fu'r trefniadau llywodraethiant. Ni chafwyd trefniadau llywodraethiant strategol trefnus ag iddynt unrhyw rythm rheolaidd a dibynadwy – dim ond dull gweithredu nawr ac eilwaith. O'n safbwynt ni, bydd ein hymadawiad â'r UE, a nawr COVID-19 hefyd, yn cael effaith ddifrifol ar drefniadau llywodraethiant mewnol y DU.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rhynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

COVID-19

9. I Lywodraeth Cymru, mae 2020-21 wedi bod yn gyfnod o ymateb i'r argyfwng iechyd y cyhoedd mwyaf sylweddol yn ein hanes. Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain ymateb gofalus, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i'r pandemig yng Nghymru. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â gwledydd eraill y DU a gweithio'n agos gyda'n partneriaid, gan arwain ar ein cyfrifoldebau datganoledig helaeth.
10. Cymysg fu'r profiad o ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar COVID-19. Er bod llawer o agweddau cadarnhaol y gallwn eu cymryd o'r profiad hwn, cafwyd cyfnodau hir hefyd pan na fu fawr o gysylltiad rhyngom a Gweinidogion Llywodraeth y DU. Yn rhy aml hefyd, mae datblygiadau wedi dod i'r amlwg drwy'r wasg a rhanddeiliaid cyn i Lywodraeth y DU ymgysylltu ar lefel rynglywodraethol â Llywodraeth Cymru.
11. Yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, roedd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymuno â chyfarfodydd COBR. Mae COBR yn dod â gweinidogion ac uwch-swyddogion o adrannau Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ynghyd i gydlynu a gwneud penderfyniadau ar lefel uchel er mwyn ymateb i'r pandemig. Cyfarfu COBR fwy nag 20 o weithiau ers mis Ionawr 2020 gyda chyfarfodydd yn cael eu galw ar sail ad hoc gan Lywodraeth y DU.
12. Sefydlwyd Grwpiau Gweithredu'r Gweinidogion i gymryd lle'r cyfarfodydd COBR fel y prif fecanwaith ar gyfer ymgysylltu ar lefel pedair gwlad o fis Ebrill i fis Mehefin 2020. Roedd y rhain yn edrych ar iechyd, gwasanaethau cyhoeddus, yr economi ac ymgysylltu rhyngwladol. O safbwynt ymgysylltu ystyrlon, roedd y profiad yn amrywio ar draws y grwpiau hyn. Ond, wedi dweud hynny, roedd amllder y cyfarfodydd hyn, a'r ffaith eu bod yn cael eu trefnu'n rheolaidd, o gymorth er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth ar draws y DU gyfan pan oedd y don gyntaf yn ei hanterth.
13. Yn dilyn cyfnod hir o ymgysylltu hynod gyfyngedig ei natur â Gweinidogion dros haf 2020, dechreuwyd cynnal galwadau yn wythnosol. Yn y cyfarfodydd hynny, trafododd y Prif Weinidog a Phrif Weinidogion a Dirprwy Weinidogion yr awdurdodau datganoledig eraill a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn y cynnydd o ran rheoli'r ymateb i'r pandemig ac unrhyw faterion a oedd yn dechrau dod i'r amlwg. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd hyn wedi bod yn un o'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

enghreifftiau mwyaf cadarnhaol o ymgysylltu gydol y pandemig cyfan. Yn yr un modd, wrth i'r pandemig fynd rhagddo, cafodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfarfodydd rheolaidd hefyd â Gweinidogion Iechyd gwledydd eraill y DU.

14. Cadwodd swyddogion o holl adrannau Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill – ar y cyfan, mae'r berthynas wedi bod yn adeiladol. Dylid nodi'n benodol yr ymgysylltu (ar draws y pedair gwlad) gyda'r Gyd-ganolfan Biddiogelwch, y corff a gafodd ei sefydlu gan Lywodraeth y DU ar gyfer darparu tystiolaeth wyddonol i lywio'r ymateb i'r pandemig.

Yr etholiadau

15. Cafodd etholiad y Senedd ei chynnal ar 6 Mai 2021, ac roedd yn cyd-daro â'r etholiadau i benodi Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr, a'r etholiadau i Senedd yr Alban yn ogystal â'r etholiadau ar gyfer Meiri Rhanbarthol a Llywodraeth Leol yn Lloegr.
16. Defnyddiodd swyddogion Llywodraeth Cymru drafodaethau rheolaidd gyda swyddogion o lywodraethau eraill ar draws y DU, a chyda Swyddogion Canlyniadau ledled Cymru, i rannu profiadau ac arferion da. Roedd yn ddefnyddiol rhannu gwybodaeth fel hyn wrth fynd i'r afael â chymhlethdodau a oedd yn codi yn sgil cynnal sawl etholiad ar yr un diwrnod, ac er mwyn lleihau'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig.
17. Yn benodol, cafodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU drafodaethau rheolaidd ar lefel swyddogion a Gweinidogion i ystyried sut fyddai orau i sicrhau cydlyniant rhwng y trefniadau ar gyfer etholiad y Senedd ac etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd. O ganlyniad, rhoddwyd trefniadau ar waith a oedd yn caniatáu i bleidleiswyr gymryd rhan yn ddiogel gan ddewis eu dull o bleidleisio.
18. Ym mis Mehefin 2020, cafodd y Grŵp Cynllunio Etholiadau ei sefydlu gan y Prif Weinidog. Roedd y Grŵp yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol a swyddogion o Lywodraeth Cymru, a'i waith oedd ystyried effaith pandemig y coronafeirws ar weinyddu etholiad y Senedd yn 2021. Cyfarfu'r Grŵp bum gwaith ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr amryw o rhanddeiliaid, gan gynnwys swyddogion o Lywodraeth y DU.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021.html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

19. Wedi i'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ddirwyn i ben, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil brys, a fyddai'n cael ei basio fel Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 yn ddiweddarach. Roedd y Ddeddf yn gwneud darpariaethau i ddod ag argymhellion y Grŵp, a gafodd eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2020, i effaith. Roedd hyn yn cynnwys estyn y pŵer i'r Llywydd ohirio etholiad y Senedd 2021 a chyflwyno mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â phleidlais drwy ddirprwy.
20. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal y berthynas a gafodd ei meithrin â'r llywodraethau eraill ac mae'n dal i ymgysylltu â nhw mewn modd cynhyrchiol ar faterion sy'n ymwneud ag etholiadau, gan gynnwys Bil Etholiadau y DU sydd yn yr arfaeth.

Y Cyfnod Pontio Ewropeaidd

21. Ymadawodd y DU â'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020, a dechrau ar Gyfnod Pontio. Nid oedd fawr o newid yn y berthynas rhwng y DU a'r UE yn ystod y cyfnod hwn. Daeth y Cyfnod Pontio i ben ar 31 Rhagfyr 2020.
22. Gyda dogfen arall – Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Blaenoriaethau Negodi i Gymru – yn cael ei chyhoeddi fel rhan o'n cyfres o ddogfennau polisi, aethom ati i barhau i eirioli dros fuddiannau Cymru. Ein nod oedd sicrhau bod gennym rôl yn y negodiadau rhwng y DU a'r UE, gan ymgysylltu hefyd ynghylch y Fframweithiau Cyffredin a Marchnad Fewnol y DU, a pharodrwydd i ymadael â'r UE (gan gynnwys datblygu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i sicrhau bod gennym lyfr statud gweithredol) erbyn diwedd y Cyfnod Pontio. Rydym wedi darparu cyllid ar gyfer llunio cyngor a gwybodaeth i gefnogi dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru, ac rydym wedi annog pobl i gyflwyno cais i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.
23. Drwy gydol y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, gan ystyried y cymhlethdod yn sgil y gorgyffwrdd rhwng cyfrifoldebau sydd wedi eu datganoli a'r rheini a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU, ceisiodd Llywodraeth Cymru ymgysylltu mewn modd adeiladol â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'i pharatoadau ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio. I gychwyn, gwrthod ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn unrhyw ffordd ystyrlon a wnaeth Llywodraeth y DU i raddau helaeth. Fodd bynnag, o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddiwedd yr haf ymlaen, gwnaeth y trefniadau ymgysylltu wella. Cafodd swyddogion eu gwahodd i Fwrdd Portffolio Pontio Llywodraeth y DU (a oedd yn rheoli'r portffolio o brosiectau diwedd y Cyfnod Pontio). At hynny, o fis Hydref, cafodd Gweinidogion Cymru eu gwahodd i'r cyfarfodydd hynny o XO (Pwyllgor Cabinet y DU a oedd yn goruchwyllo'r paratodau ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio) lle yr oedd materion a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r llywodraethau datganoledig yn cael eu trafod. Yn y misoedd cyntaf ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddirwyn i ben, gwahoddwyd Gweinidogion Cymru i gymryd rhan yng nghyfarfodydd dyddiol XO, a oedd yn canolbwyntio ar effaith weithredol diwedd y Cyfnod Pontio.

24. Gyda'r DU wedi ymadael â'r UE, a'r Cyfnod Pontio wedi dirwyn i ben, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU ar feysydd polisi lle y mae pwerau wedi eu dychwelyd o'r UE ac sy'n torri ar draws meysydd lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, drwy ddatblygu Fframweithiau Cyffredin y DU. Mae hwn yn ddatblygiad sylweddol yn y ffordd y bydd holl llywodraethau'r DU yn gweithio gyda'i gilydd yn y tymor hir. Cafodd Fframweithiau Dros Dro eu cyhoeddi ar ddiwedd y Cyfnod Pontio, ym mis Rhagfyr 2020. Ers hynny, maen nhw wedi cael eu gweithredu fel cytundebau ar lefel swyddogol hyd nes y bydd y deddfwrfeydd wedi craffu arnynt. Disgwylir i'r gwaith craffu hwnnw ddechrau pan geir cytundeb ynghylch sut y dylid ymdrin â materion trawsbynciol allweddol sy'n effeithio ar y Fframweithiau Cyffredin.
25. Mae'r Fframweithiau yn cael eu datblygu yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ym mis Hydref 2017 rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Cafodd egwyddorion Fframweithiau Cyffredin Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) eu cymeradwyo gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ar 15 Mehefin 2020.
26. Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn bwriadu rhyddhau datganiad i'r Senedd a fydd yn rhoi trosolwg o'r rhaglen hyd yma, flwyddyn wedi i'r mwyafrif o'r Fframweithiau Cyffredin ddod yn weithredol fel cytundebau dros dro ddiwedd y llynedd.
27. Yn ystod hynt Bil Marchnad Fewnol y DU, cafodd y setliadau datganoli eu hamddiffyn yn ffyrnig gan aelodau ar draws Tŷ'r Arglwyddi – ac roeddem yn hynod ddiolchgar am hyn. Er bod y cynnwys wedi ei ddiwygio (gyda

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021.html> i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

chyfeiriad clir at y gwelliannau enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru), cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol heb gydsyniad Senedd Cymru na Senedd yr Alban. O ganlyniad, mae gennym Ddeddf sy'n broblemus o safbwynt datganoli ac mae perygl iddi danseilio'r cynnydd a wnaed drwy'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau cyfreithiol i herio rhannau o'r Ddeddf ac mae'r camau hynny yn parhau.

28. Ddechrau 2019, dechreuodd Llywodraeth y DU gydlynu cyfarfodydd wythnosol gyda'r llywodraethau datganoledig i drafod sut y dylid cyfathrebu ynghylch y Cyfnod Pontio o'r UE. O ddiwedd haf 2020, dechreuodd Llywodraeth y DU gynnwys trafodaethau ynglŷn â'u cynlluniau a'u cynigion ar gyfer cyfathrebu ynghylch y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), a defnyddiodd y rhain fel ffordd o rannu adnoddau ac asedau cysylltiedig. Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn barod i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyfathrebu ynghylch EUSS. Cafwyd trafodaethau cydweithredol eu natur, gydag amcan cyffredin i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i ddinasyddion yr UE. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi darparu cynrychiolydd polisi a chyfathrebu EUSS i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Grŵp Cydgysylltu EUSS Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi bod yn ffafriol er mwyn rhannu gwybodaeth â phartneriaid allanol ac ymateb i ymholiadau ynglŷn â'r cynllun a'i oblygiadau.
29. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o benderfyniadau sydd wedi cael cryn effaith ar ddinasyddion yr UE yng Nghymru heb ymgynghori ymlaen llaw. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y penderfyniad i ddarparu tystiolaeth ddigidol yn unig o statws a'r penderfyniad i beidio ag estyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau EUSS er gwaethaf llawer o alwadau gan y llywodraethau datganoledig.
30. Mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i System Fisâu a Mewnfudo y DU yn ystod y flwyddyn nad ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig yn eu cylch cyn iddynt gael eu rhoi ar waith. Ar 1 Ionawr eleni, gyda hawl dinasyddion yr UE i symud yn rhydd yn dirwyn i ben, cyflwynodd Llywodraeth y DU system yn seiliedig ar bwyntiau.
31. Ym mis Rhagfyr 2020, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ar y cyd â Ben Macpherson ASA, Gweinidog Cyllid Cyhoeddus a Mudo Llywodraeth yr Alban, at Kevin Foster AS i dynnu sylw

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021.html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

unwaith yn rhagor at y cais i gael cyfarfod ar fyrder rhwng pedair gwlad y DU i drafod y polisi mudo a'r newidiadau i'r system mewnfudo a ddaeth i effaith ar 1 Ionawr 2021. Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, ni chynhaliodd ac ni threfnodd Llywodraeth y DU unrhyw gyfarfodydd ffurfiol ynghylch mudo.

32. Er nad yw mudo yn fater sydd wedi ei ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gymell Llywodraeth y DU i ymgysylltu ar yr holl faterion mudo. Mae gan y materion hyn lawer o oblygiadau sy'n effeithio ar sawl agwedd ar y polisiau a'r gwasanaethau cyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am eu cyflawni.
33. Ym mis Mawrth 2020, comisiynodd Llywodraeth y DU y Pwyllgor Cyngori ar Ymfudo i lunio Rhestr o Alwedigaethau lle ceir Prinder a darparodd Llywodraeth Cymru ymateb manwl i'r cais am dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Pwyllgor, ynghyd ag adroddiad dadansoddi, ar 24 Mawrth 2020. Er bod y Pwyllgor Cyngori ar Ymfudo wedi mabwysiadu rhai o argymhellion Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ganddo ar 29 Medi 2020, penderfynu peidio â gweithredu unrhyw un o argymhellion y Pwyllgor wnaeth Llywodraeth y DU.
34. Cafodd Offerynnau Statudol (OSau) Ymadael â'r UE yr ystyriwyd eu bod yn ofynnol erbyn diwedd y Cyfnod Pontio, er mwyn gwneud cywiriadau pellach i gyfraith yr UE a ddargedwir i sicrhau bod ein llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ac i roi'r Cytundeb Ymadael a'r cytundebau cysylltiedig ar waith, eu cyflawni'n brydlon. Rhoddodd Gweinidogion Cymru eu cydsyniad i fwy na 50 o OSau y DU a gwnaethant 20 o OSau Cymreig yn ystod y Cyfnod Pontio.
35. Daeth y flwyddyn i'w therfyn bron yn union yr un ffordd ag y dechreuodd. Gyda'r cloc yn tician a chytundeb gwan neu ddim cytundeb fel y ddau opsiwn ar y bwrdd, cafodd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, a'r Bil ynglŷn â'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol i roi effaith i'r Cytundeb hwnnw, eu hystyried gan y Senedd ar 30 Rhagfyr. Ni chyflwynodd Llywodraeth Cymru gynnig cydsyniad deddfwriaethol oherwydd teimlai, gyda dim ond llond llaw o ddiwrnodau gwaith ar gael i'w hystyried, na fyddai'n bosibl deall goblygiadau'r Bil a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu 1245 o dudalennau o hyd. Unwaith eto, dangosodd Llywodraeth y DU ddiffyg parch llwyr at ddatganoli a Chonfensiwn Sewel, y cadarnhawyd nad oedd yn addas i'r diben. Roedd y Senedd (a Senedd y DU

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddaraf
Tudalen y pecyn 69
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hefyd o ran hynny) yn haeddu llawer mwy o barch na hyn a rhaid iddi gael cyfle i roi ystyriaeth briodol i unrhyw ddeddfwriaeth y mae angen ei chydsyniad ar ei chyfer, yn enwedig un o'r darnau deddfwriaeth pwysicaf a gafwyd ar gyfer y DU yn ddiweddar.

Cysylltiadau rhyngwladol

36. Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020, cynhaliwyd cyfarfodydd Gweinidogol pedairochrog (wythnosol) rhwng y Llywodraethau datganoledig a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) i drafod ein hymateb cyfunol i'r pandemig a'r gwaith a oedd ar droed ynghylch yr ymdrech ailwladoli fyd-eang. Bu sawl rhan o rwydwaith swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhwydwaith gwasanaethau consylaidd FCDO gan atgyfnerthu gallu FCDO i ymateb i'r ymdrech ailwladoli a dod â Gwladolion Prydain, a oedd yn sownd dramor gan nad oedd awyrennau masnachol yn hedfan, yn ôl i'r DU. Cefnogwyd y cyfarfodydd hyn gan adroddiadau dyddiol ar ddata a gwybodaeth ddadansoddiadol a gasglwyd gan dîm ymchwil FCDO ynglŷn â'r ymateb byd-eang i COVID-19. Daeth FCDO â'r cyfarfodydd wythnosol hyn i ben ym mis Mehefin gan fod yr ymdrech ailwladoli yn tynnu tua'i therfyn. Serch hynny, mae gwybodaeth a gesglir gan ei thîm ymchwil ynglŷn â chymaryddion rhyngwladol wedi parhau i gael ei rhannu'n wythnosol.
37. Ers i'r cyfarfodydd hyn ddod i ben, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi pwysu am gyfarfodydd pedairochrog rheolaidd rhwng Gweinidogion ar faterion amrywiol. Serch hynny, nid yw FCDO wedi cytuno i'r ceisiadau hyn. Mae cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd rhwng swyddogion wedi eu cynnal â FCDO ynglŷn â Chysylltiadau Rhyngwladol.
38. Mae tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru wedi cael briffiadau rheolaidd gan adrannau Llywodraeth y DU, gan gynnwys Swyddfa'r Cabinet, FCDO a'r Swyddfa Gartref, ynglŷn â Llywyddiaeth y DU o'r G7 a chan Swyddfa'r Cabinet ynglŷn â'r Adolygiad Integredig o Ddiogelwch, Amddiffyn, Datblygu a Pholisi Tramor.
39. Ac eithrio'r cyswllt wythnosol a gynhaliwyd yn chwarter cyntaf 2020-21 ynghylch ein hymateb cyfunol i COVID-19, mae ymgysylltu Gweinidogol â Llywodraeth y DU ynglŷn â Chysylltiadau Rhyngwladol wedi bod yn ad hoc

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yn bennaf. Rydym wedi bod yn pwysu am ymgysylltu mwy strwythuredig ynghylch materion rhyngwladol fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

Cytundebau masnach rydd

40. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad ag adrannau polisi arweiniol yn Llywodraeth y DU ynghylch sefydlu'r Pwyllgorau Arbenigol ar gyfer Cytundeb Masnach a Chydweithredu DU-UE. Mae pob Pwyllgor wedi ei sefydlu mewn modd ychydig yn wahanol gan ddibynnu ar yr adran bolisi arweiniol yn Llywodraeth y DU. Mae ymwneud Llywodraeth Cymru yn amrywio o drafodaeth gychwynnol am agendâu, mynychu'r Pwyllgorau fel sylwedyddion, i fynychu'r Pwyllgorau gyda rôl gyfranogi lawn. At ei gilydd, mae'r ymgysylltu ag adrannau polisi arweiniol Llywodraeth y DU wedi bod yn gadarnhaol.
41. Mae'r berthynas â'r Adran Masnach Rhyngwladol ar negodiadau Gweddill y Byd wedi parhau i fod yn un adeiladol eleni. Er hynny, mae rhai trafodaethau'n mynd rhagddynt o hyd ynglŷn â graddfa rhannu gwybodaeth, yn enwedig ynghylch materion a ystyrir yn rhai a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU. Cynhaliwyd dau gyfarfod (ym mis Mawrth a mis Gorffennaf) o'r Fforwm Masnach Gweinidogol yn ystod 2021 ynghyd â chyfarfodydd dwyochrog Gweinidogol rheolaidd. Rydym wedi cael y cyfle i roi sylwadau am faterion yn ymwneud â'r mandadau ar gyfer Awstralia a Seland Newydd mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, ac rydym hefyd yn cael gweld peth o'r testun cyfreithiol sy'n cael ei gyflwyno yn y negodiadau. Roedd y broses Cymeradwyaeth mewn Egwyddor newydd a ddefnyddiwyd ar gyfer cytundeb masnach rydd y DU ac Awstralia, ac sy'n debygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer Seland Newydd, yn cynnwys elfennau anfoddhaol; yn enwedig o ran Awstralia yn cyhoeddi manylion y Cwotâu ar Gyfradd Tariff cyn y DU. O ystyried bod hon yn broses newydd, mae'n ddigon posibl y bydd y ffordd o ymdrin â chytundebau masnach yn y dyfodol yn esblygu ac rydym yn disgwyl gwelliannau yn y broses hon dros amser.
42. Mae'r broses o ymuno â Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar Gwledydd y Môr Tawel (CPTPP) yn debygol o fod ychydig yn wahanol gan ein bod yn ymuno â chytundeb sydd eisoes yn bodoli. Yn ôl yr arwyddion cynnar, bydd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021.html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yr ymgysylltu ynglŷn â hyn yn gadarnhaol ond mae lefelau dylanwad Llywodraeth Cymru yn debygol o fod yn is na'i dylanwad yn y negodiadau cytundebau masnach rydd dwyochrog.

Cyllid

43. Mae pandemig COVID-19 wedi dwysáu cysylltiadau rhynglywodraethol ynghylch materion cyllid. Cynhaliwyd cyfarfodydd Pedairochrog y Gweinidogion Cyllid yn amlach, gan gynnwys chwe chyfarfod yn ystod y rhan gyntaf o'r flwyddyn. Canolbwyntiwyd ar faterion amrywiol yn y cyfarfodydd, gan gynnwys sicrwydd ynglŷn â'r cyllid a'r hyblygrwydd a oedd ar gael i'r llywodraethau datganoledig er mwyn ymateb i'r argyfwng a lleddfu ei effaith, ac ymyriadau penodol ar gyfer y DU gyfan megis y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cynhaliwyd un cyfarfod Pedairochrog ym mis Hydref gan ganolbwyntio ar Adolygiad o Wariant y DU a chostau COVID-19 yn ystod y flwyddyn. Byddem wedi croesawu mwy o ymgysylltu mewn rhai meysydd, er enghraifft gwrthododd Llywodraeth y DU gais am gyfarfod Pedairochrog i drafod goblygiadau ariannol yr Ymadawiad â'r UE.
44. Drwy gydol y cyfnod, rydym wedi parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am eglurder ynglŷn â'i chyhoeddiadau cyllid, ei chynlluniau ar gyfer y Gyllideb a'r Adolygiad o Wariant. Mae'r eglurder hwn yn hanfodol i'n galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol ar sail anghenion pobl Cymru. Llwyddwyd i sicrhau Gwarant Barnett yn 2020-21 a oedd o gymorth o ran rheoli cyllidebau.
45. Ar ôl yr Ymadawiad â'r UE, rydym wedi parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i wireddu ei hymrwymiad i ddarparu'r un faint o gyllid yn lle cyllid yr UE a sicrhau bod Llywodraeth y DU yn darparu ar gyfer y costau gweithredol ychwanegol yn sgil swyddogaethau newydd sy'n deillio'n uniongyrchol o'r Ymadawiad â'r UE, megis y gweithrediadau angenrheidiol ar ffiniau Cymru.
46. Mae'n gwbl annerbyniol bod Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau cymorth ariannol yn Neddf y Farchnad Fewnol i greu rhaglenni newydd ledled y DU mewn meysydd lle mae cyfrifoldeb wedi ei ddatganoli, gan osgoi fformiwla Barnett, a lleihau'r arian sydd ar gael i'r llywodraethau datganoledig a'u Seneddau. Yn hytrach na chryfhau'r Undeb, y cwbl y mae'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ymagwedd hon yn ei wneud yw cynyddu rhaniadau ac anghydraddoldebau. Mae perygl y bydd yn dyblygu ymdrechion, yn rhwystro gwerth am arian ac yn gwneud atebolrwydd yn aneglur, gan arwain at dirwedd gyflawni gymysglyd ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau. Ni ddylai Llywodraeth y DU ond defnyddio'r pwerau hyn gyda chydysyniad penodol y llywodraethau datganoledig.

47. Rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gyflawni ei rhwymedigaethau i ddarparu'r cyllid angenrheidiol i wneud iawn am y tanfuddsoddi hanesyddol mewn rheilffyrdd ac ymchwil a datblygu, yn ogystal â mynd i'r afael â materion ynghylch gwaddol diwydiannol sy'n rhagddyddio datganoli.
48. Er inni groesawu'r gydnabyddiaeth gychwynnol o effeithiau'r llifogydd ym mis Chwefror 2020 a gwaith cychwynnol cysylltiedig ar adfer tomenni glo, mae Llywodraeth y DU yn parhau i ddweud bod y costau ar gyfer adfer tomenni glo wedi eu darparu yn ein setliad datganoli. Mae tomenni glo'n rhagddyddio datganoli, ac mae effaith anghymesur ar Gymru gan fod bron i 40% o'r holl domenni glo segur yng Nghymru. Mae'r costau adfer yn fwy nag unrhyw beth a ragwelwyd pan ddechreuodd datganoli yn 1999 ac nid yw ein trefniadau cyllid presennol yn adlewyrchu hynny.
49. Rydym wedi galw'n gyson ar Lywodraeth y DU i ddarparu'r tegwch, yr hyblygrwydd a'r eglurder sydd eu hangen ar Gymru i gefnogi a diogelu ei chymunedau a'i busnesau. Rydym hefyd wedi pwysleisio sawl gwaith nad yw'r cyllid presennol yn adlewyrchu graddfa'r materion sy'n wynebu Cymru.
50. Parhawyd â thrafodaethau â Llywodraeth y DU ynglŷn â phecyn cyllid hirdymor a rhaglen waith ar y cyd ar gyfer materion yn ymwneud â gwaddol diwydiannol megis tomenni glo a diogelwch mwyngloddiau.
51. Mae cryn ymdrech wedi ei gwneud i gryfhau a ffurfioli cysylltiadau rhynglywodraethol drwy ddatblygu Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid fel rhan o'r Adolygiad ehangach o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.
52. Fel rhan o'r Adolygiad o Wariant 2020, gwnaed rhai gwelliannau i'r Datganiad o Bolisi Ariannu 2020, i ddileu amwysedd a gwella tryloywder ynghylch penderfyniadau ariannu. Mae angen rhagor o welliant mewn sawl maes o hyd a byddwn yn cynnig diwygiadau pellach ar gyfer y fersiwn nesaf yn yr Adolygiad o Wariant ym mis Hydref 2021.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021.html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Yr economi, ynni a'r newid yn yr hinsawdd

53. Mae cryn ymdrech wedi ei gwneud i wella ein cysylltiadau rhynglywodraethol a'r cydweithio â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Mae'r cydberthnasau hyn wedi eu cryfhau ond mae rhai heriau'n dal i fod. Yn sgil y flaenoriaeth gyffredin i ymateb i effeithiau economaidd COVID-19, cyflymwyd yr ymdrechion a oedd eisoes ar waith a rhoddodd hyn eglurder ynghylch diben ein hymgysylltiad. Mewn ymateb, symudodd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fusnes a Diwydiant i gyfarfodydd wythnosol a sefydlu fforwm Cyfarwyddwyr newydd gyda'r llywodraethau datganoledig, BEIS a Thrysorlys Ei Mawrhydi. Roedd sefydlu cydysgrifenyddiaeth yn nodi newid yn y dull gweithredu a chynhaliwyd y cyfarfodydd gyda pharch i bob ochr. Ynghyd â chyfarfodydd dwyochrog rheolaidd â Llywodraeth y DU, sicrhodd y fforymau hyn fod gan Gymru lais uniongyrchol pan oedd dulliau gweithredu polisi pwysig ar gyfer y DU gyfan yn cael eu datblygu. Serch hynny, er bod yr ymgysylltu wedi cynyddu'n sylweddol, rydym yn parhau i wynebu heriau o ran gweithio ar y cyd, gan gael ein trin yn aml fel rhanddeiliad sy'n cael gwybod am benderfyniadau sydd eisoes wedi eu gwneud heb gyfle digonol i lywio'r gwaith datblygu i sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n briodol.
54. Mae'r grwpiau hyn yn parhau i ddatblygu ac maen nhw'n gwella'n sylweddol y broses o rannu gwybodaeth rhwng y llywodraethau. At ei gilydd, mae hyn wedi bod o gymorth i Lywodraeth Cymru o ran datblygu ein hymateb economaidd a chadernid busnesau, yn ogystal â sicrhau bod busnesau Cymru'n parhau i elwa ar gymorth sydd ar gael ledled y DU. Mae rhai meysydd polisi nodedig lle bu diffyg sylweddol o ran ymgysylltu cyn cyhoeddiadau allweddol gan Lywodraeth y DU. Rydym yn parhau i ddadlau'r achos dros gysylltiadau rhynglywodraethol gwell a mwy effeithiol.
55. Yn ogystal, mae ymgysylltu ar faterion Pontio'r UE wedi parhau, gan rannu gwybodaeth yn rheolaidd rhwng Whitehall a'r llywodraethau datganoledig ynghylch materion sy'n wynebu busnesau o ganlyniad i'r sefyllfa ar ôl y cyfnod pontio o'r UE.
56. Ar y cyfan, mae cysylltiadau rhynglywodraethol yn y maes hwn wedi cryfhau, er gwaethaf heriau parhaus sylweddol. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y strwythurau ffurfiol sydd nawr wedi eu sefydlu gan fynd ar drywydd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021.html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ymagwedd gadarnhaol tuag at gysylltiadau rhynglywodraethol ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â datblygu economaidd.

57. Yr un yw'r casgliad cyffredinol o ran ymgysylltu Gweinidogol â BEIS ynghylch ynni. Mae angen trefn fwy rheolaidd a dibynadwy arnom o ran cyfarfodydd mewn meysydd lle ceir buddiannau cyffredin. Ar lefel swyddogion, mae gwaith da yn parhau mewn rhannau o BEIS. Mae'r gwaith ar y Cynllun Masnachu Allyriadau yn parhau. Mae'n anodd weithiau oherwydd gwahaniaethau mewn polisi ond mae ymgysylltu'n digwydd. Ymysg meysydd eraill lle ceir enghreifftiau o ymgysylltu swyddogol cadarnhaol y mae gwaith yn sgil yr Ymadawiad â'r UE (pwyllgorau arbenigol) a gwaith ar gadernid o ran ynni.

Sgiliau a chyflogadwyedd

58. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar sgiliau a pholisi cyflogadwyedd yn ogystal ag ar lefel weithredol. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn cysoni gweithgarwch cyflawni â pholisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae cydweithio'n digwydd rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a rhaglen Cymru'n Gweithio, gan anelu at feithrin gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a all gyfeirio dinasyddion at y cymorth cyflogadwyedd mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Mae'r Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol hefyd yn cael eu cyflawni ar y cyd gan DWP a Llywodraeth Cymru.
59. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ddarpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd mewn carchardai yng Nghymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS). Mae'r trefniadau hyn yn galluogi perthynas weithio agos a chynhyrchiol â HMPPS ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i gysoni'r ddarpariaeth addysg â llawer o bolisïau Llywodraeth Cymru.

Addysg

60. Cynhaliwyd sawl cyfarfod Gweinidogol i drafod materion sy'n effeithio ar bortffolio'r Gweinidog Addysg. Prif bwnc y trafodaethau yn ystod y cyfnod

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021.html> i weld y fersiwn diweddaraf. Tudalen y pecyn 75
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hwn oedd effaith pandemig COVID-19 gan gynnwys trefniadau gweithredol mewn ysgolion a cholegau ac adfer addysg. Yn gysylltiedig ag effaith COVID-19, cafwyd trafodaethau ynglŷn â chymwysterau hefyd.

Yr Amgylchedd, amaethyddiaeth a bwyd

61. Parhaodd y cysylltiadau ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) i fod yn rhai cadarnhaol yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig pan hi oedd yr adran arweiniol ar fater penodol. Pan oedd rhai o adrannau eraill Llywodraeth y DU yn rhan o'r gwaith, roedd pethau'n anos weithiau, yn enwedig mewn perthynas â rhannu gwybodaeth a graddfeydd amser ar gyfer darparu adborth.
62. Parhaodd y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod y cyfnod hwn, a symudodd y ffocws yn araf oddi wrth faterion Pontio'r UE ac eithrio mewn perthynas â ffiniau a Phrotocol Gogledd Iwerddon. O edrych tua'r dyfodol, bydd yn canolbwyntio ar feysydd polisi lle mae'r gweinyddiaethau'n teimlo y byddai cydweithio o fudd neu'n angenrheidiol.

Iechyd

63. Ar lefel Gweinidogion, roedd y trafodaethau yn ystod 2020-21 yn ymwneud yn bennaf â materion cysylltiedig â COVID-19. Bu trafodaethau hefyd am faterion eraill gan gynnwys materion yn ymwneud â'r Ymadawiad â'r UE a, thuag at ddiwedd y cyfnod, y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
64. Cynhaliwyd trafodaethau ar yr Ymadawiad â'r UE yng nghyd-destun ansicrwydd ynghylch canlyniad negodiadau rhwng Llywodraeth y DU a'r UE tan yn hwyr iawn yn y broses. Yn ogystal, roedd diwedd y cyfnod pontio yn digwydd yr un pryd â phandemig COVID-19 a phwysau eraill y gaeaf. Roedd y trafodaethau ar yr Ymadawiad â'r UE yn cyffwrdd â materion amrywiol gan gynnwys trefniadau paratoi o ran meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a deunyddiau traul clinigol, statws preswlydd sefydlog ac effeithiau ar y gweithlu, Fframweithiau Cyffredin y DU, parodrwydd deddfwriaethol a gofal iechyd cilyddol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

65. Y tu ôl i hyn, gwaith gweithredol oedd y rhan fwyaf o'r gwaith rhynglywodraethol ar gyfer yr Ymadawiad â'r UE. Cafwyd ymgysylltu adeiladol ar y cyfan rhwng swyddogion drwy fecanweithiau megis grŵp cydlynu diwedd y cyfnod pontio rhwng y pedair gwlad, a fforwm penodol ar gyfer cydlynu cyflenwadau. Parhaodd fforymau o'r fath y tu hwnt i'r cyfnod pontio ac erbyn mis Mawrth 2021 dechreuwyd ystyried sut y gellid adeiladu arnynt yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn sefydlu'r cysylltiadau hyn ar draws ystod o heriau a chyfleoedd mwy hirdymor. Hefyd, cefnogwyd gwaith rhynglywodraethol ar yr Ymadawiad â'r UE gan y gwaith manwl a wnaed drwy gysylltiadau yn y GIG, yn enwedig rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Public Health England ynghylch diogelu iechyd y cyhoedd, a rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac NHS Supply Chain ynghylch stociau gwarchod a pharodrwydd cyflenwyr.

Blaenoriaethau a rhagolygon

66. Yn y Pwyllgor Materion Cymreig ar 4 Mawrth, soniais am fy ngobaith am strwythur gwell ar gyfer y DU i gynnal ein cyfansoddiad, datganoli a chysylltiadau rhynglywodraethol:

“What I am referring to is an entrenched form of devolution, a devolution that cannot be unilaterally rolled back by any one party, a devolution settlement—and I think there is still scope for development in devolution—where the responsibilities that currently exist at the Welsh level are set down in a way that guarantees they can continue.

“I set that alongside the need for the sort of UK architecture—and we set it out in a series of documents right up to the point of the pandemic hitting us—in which Welsh participation in those matters that affect Wales but are not devolved to Wales would be properly organised. There would be guarantees about it. There would be a reliability around that architecture.

“So, home rule in the sense that the powers that we have and the devolution settlement that we will develop would be guaranteed and

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021.html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

could not be interfered with in the way that we have seen so vividly in recent months. Then, a set of institutional arrangements between the 4 nations that allow each party to contribute, and to contribute positively, to the success of the United Kingdom.

...

In Wales, certainly, we would positively and constructively want to pool some of that sovereignty back for shared purposes; a structure for the United Kingdom that allows us to operate in a way that, where there is the maximum capacity for decisions that in our case affect only people in Wales, those decisions should be made only by people in Wales. But when we have purposes that go beyond Wales, that are shared with other parts of the United Kingdom, we are able to co-operate and pool our risks and share the rewards. That is the sort of entrenched home-rule arrangements that I have in mind and that we have set out regularly as a Welsh Government...

...

I think the continued existence of the United Kingdom is more at risk today than at any point in my political lifetime, and simply defending the status quo hastens the day when the United Kingdom will no longer be able to stay together. Those of us who are serious about making the case for the United Kingdom have to be prepared to lead change because, if we don't lead change, others will grasp the banner of change and will lead part of the United Kingdom away from the arrangements we have today.

...

...What devolution could be, and should be, is a way of governing the United Kingdom that allows people to take charge of their own affairs in the different parts of the United Kingdom, but which is predicated on a set of intergovernmental arrangements that allow the component parts of the United Kingdom to come together voluntarily for common purposes.” ”

Welsh Affairs Committee, Oral evidence: One-off session with the First Minister of Wales, HC 1255

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddaraf.
Tudalen 78
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

67. Mae'n siom bod yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, a gafodd ei gomisiynu yn 2018, wedi cymryd mor hir. Er hynny, mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud eleni, er gwaethaf heriau'r pandemig i bob llywodraeth. Ar 24 Mawrth, fe wnaeth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ar y pryd dynnu sylw mewn Datganiad Ysgrifenedig at y pecyn drafft o ddiwygiadau a gafodd ei gyhoeddi gan Lywodraeth y DU y diwrnod hwnnw. Dywedom ar y pryd fod cysylltiadau rhynglywodraethol wedi gwaethygu yn y tair blynedd ers i'r Adolygiad gael ei gomisiynu. Un o'r prif resymau dros hyn oedd cyfres o ymyriadau ymosodol gan Lywodraeth y DU mewn meysydd sydd wedi eu datganoli ([Datganiad Ysgrifenedig: Yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol](#)).
68. Ers yr etholiad, rydym wedi bod yn sefydlu ac yn ailsefydlu cysylltiadau Gweinidogol yng nghyd-destun ein Rhaglen Lywodraethu. Rydym hefyd wedi bod yn ailsefydlu cysylltiadau yn dilyn datblygiadau gwleidyddol ar draws y DU. Mae'n anffodus bod sesiwn newydd Senedd y DU wedi cyddaro â'r etholiad. Mae hyn yn golygu bod llawer o Filiau'r DU sy'n cael effaith ar Gymru a datganoli wedi cael eu cyflwyno heb drafodaethau priodol a heb barchu Confensiwn Sewel.
69. Rydym wedi dechrau ein rhaglen gyfansoddiadol ar gyfer y Chweched Senedd yn brydlon ac yn bwrpasol. Rydym eisoes wedi cyhoeddi ail rifyn o 'Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y Deyrnas Unedig'. Rydym hefyd yn rhoi cynlluniau ar waith i sefydlu comisiwn i ystyried dyfodol cyfansoddiadol Cymru.
70. Rydym yn disgwyl dechrau trafodaethau â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac o bosibl rannau eraill o Lywodraeth y DU, ynglŷn â gweithredu argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (Comisiwn Thomas), yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, i fwrw ymlaen â'r achos dros ddatganoli cyfiawnder a phlisma.
71. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gynnal 36ain cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn hydref 2021. Rydym yn gobeithio y gall cysylltiadau rhynglywodraethol o fewn y DU ddysgu o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig fel model sy'n galluogi pob llywodraeth i gymryd rhan mewn ffordd drefnus a chyfartal.

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rhynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021.html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

28 Medi 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddar.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru: adroddiad blynyddol 2020 i 2021](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/darparu-gwybodaeth-rynglywodraethol-ir-cynulliad-cenedlaethol-adroddiad-blynyddol-2020-2021-html> i weld y fersiwn diweddar.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



Ein cyf/Our ref: MA-LG-2983-21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

huw.Irranca-Davies@senedd.cymru

27 Medi 2021

Annwyl Huw,

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) 2021

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu gwneud yr Offeryn Statudol (OS) ("yr offeryn") uchod o dan bwerau a roddwyd gan:

- Erthygl 144(6) o, a pharagraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, yn cael eu cymhwyso,;

Mae'r ddeddfwriaeth weithredu a wnaed ddiwedd 2020 o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn pennu "cyfnod graddoli trosiannol" er mwyn i reolaethau ar fewnforion SPS o'r UE allu cael eu cyflwyno dros gyfnod o nifer o fisoedd. Diben eu graddoli yw er mwyn i sectorau masnach a seilwaith y rheolaethau allu bod yn barod ar gyfer y gofyn i gynnal rhagor o wiriadau bioddiogelwch, sef un o ganlyniadau'r penderfyniadau i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Offeryn yn diwygio, yng Nghymru, y dyddiad a bennwyd fel diwedd y cyfnod graddoli trosiannol, fel ag y mae'n ymwneud â gwiriadau dogfennol ar gynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid a rhai sgil-gynhyrchion anifeiliaid ac mae'n gohirio'r gofyn i hysbysu ymlaen llaw am gynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid. Bydd yr Offeryn yn diddymu'r gofyniad hefyd am dystysgrifau iechyd yn ystod y cyfnod graddoli trosiannol, mewn perthynas â Lloegr yn unig. Caiff y ddeddfwriaeth a ganlyn ei diwygio:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. **Tudalen y pecyn 83**

- Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu chymhwyso;
- Rheoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig 2011 (yn gymwys i Loegr yn unig);
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) 2021.

Heb y diwygiadau hyn, bydd yn ofynnol, o 1 Hydref 2021 ymlaen, i fusnesau mewnfario ac allfario ym Mhrydain Fawr a'r UE gydymffurfio â gofynion y rheolaethau SPS fel y'u nodir ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth.

Bydd yr estyniad yn caniatáu i fusnesau yng Nghymru yr effeithir arnynt gan y pandemig ymgylfarwyddo â gofynion cydymffurfio a systemau TG newydd y SPS a sicrhau bod y seilwaith a'r prosesau angenrheidiol ar waith mewn Mannau Rheoli Ffiniau, gan leihau mwy ar y risg o unrhyw darfu ar fasnach.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fy mod yn rhoi fy nghysyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr Offeryn hwn mewn perthynas â Chymru. Deallaf y bydd yr OS yn cael ei osod gerbron Dau Dŷ Senedd y DU ar 28 Medi o dan y weithdrefn negyddol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau na ddaw'r gofynion i rym o 1 Hydref 2021, mae'r Offeryn hwn yn mynd yn groes i'r confensiwn 21 diwrnod.

O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro deddfwriaeth o fewn amserlen dynn a chydag adnoddau prin, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod, os yw hynny'n briodol, yn caniatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan. Pe bai cydsyniad yn cael ei wrthod, byddai angen gwneud y cywiriadau hyn drwy ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, nid oes digon o amser ac adnoddau i fedru drafftio a gosod rheoliadau o'r fath ac iddynt ddod i rym mewn pryd. Os na roddir cydsyniad, daw'r gofyniad am wirio dogfennau ar rai mewnfario penodedig i rym.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Newid Hinsawdd, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd
 Tudalen y pecyn 84



Ein cyf/Our ref: MA-LG-2983-21

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

27 Medi 2021

Annwyl Paul,

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) 2021

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu gwneud yr Offeryn Statudol (OS) ("yr offeryn") uchod o dan bwerau a roddwyd gan:

- Erthygl 144(6) o, a pharagraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, yn cael eu cymhwyso,;

Mae'r ddeddfwriaeth weithredu a wnaed ddiwedd 2020 o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn pennu "cyfnod graddoli trosiannol" er mwyn i reolaethau ar fewnforion SPS o'r UE allu cael eu cyflwyno dros gyfnod o nifer o fisoedd. Diben eu graddoli yw er mwyn i sectorau masnach a seilwaith y rheolaethau allu bod yn barod ar gyfer y gofyn i gynnal rhagor o wiriadau bioddiogelwch, sef un o ganlyniadau'r penderfyniadau i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Offeryn yn diwygio, yng Nghymru, y dyddiad a bennwyd fel diwedd y cyfnod graddoli trosiannol, fel ag y mae'n ymwneud â gwiriadau dogfennol ar gynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid a rhai sgil-gynhyrchion anifeiliaid ac mae'n gohirio'r gofyn i hysbysu ymlaen llaw am gynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid. Bydd yr Offeryn yn diddymu'r gofyniad hefyd am dystysgrifau iechyd yn ystod y cyfnod graddoli trosiannol, mewn perthynas â Lloegr yn unig. Caiff y ddeddfwriaeth a ganlyn ei diwygio:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu chymhwyso;
- Rheoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig 2011 (yn gymwys i Loegr yn unig);
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) 2021.

Heb y diwygiadau hyn, bydd yn ofynnol, o 1 Hydref 2021 ymlaen, i fusnesau mewnfario ac allfario ym Mhrydain Fawr a'r UE gydymffurfio â gofynion y rheolaethau SPS fel y'u nodir ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth.

Bydd yr estyniad yn caniatáu i fusnesau yng Nghymru yr effeithir arnynt gan y pandemig ymgyfarwyddo â gofynion cydymffurfio a systemau TG newydd y SPS a sicrhau bod y seilwaith a'r prosesau angenrheidiol ar waith mewn Mannau Rheoli Ffiniau, gan leihau mwy ar y risg o unrhyw darfu ar fasnach.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fy mod yn rhoi fy nghysyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr Offeryn hwn mewn perthynas â Chymru. Deallaf y bydd yr OS yn cael ei osod gerbron Dau Dŷ Senedd y DU ar 28 Medi o dan y weithdrefn negyddol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau na ddaw'r gofynion i rym o 1 Hydref 2021, mae'r Offeryn hwn yn mynd yn groes i'r confensiwn 21 diwrnod.

O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro deddfwriaeth o fewn amserlen dynn a chydag adnoddau prin, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod, os yw hynny'n briodol, yn caniatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan. Pe bai cydsyniad yn cael ei wrthod, byddai angen gwneud y cywiriadau hyn drwy ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, nid oes digon o amser ac adnoddau i fedru drafftio a gosod rheoliadau o'r fath ac iddynt ddod i rym mewn pryd. Os na roddir cydsyniad, daw'r gofyniad am wirio dogfennau ar rai mewnfario penodedig i rym.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Newid Hinsawdd, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

John Griffiths AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru

1 Hydref 2021

Annwyl John,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Medi yn gofyn am ragor o wybodaeth am y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) a sut mae'n cyd-fynd â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygiadau ehangach, gan gynnwys gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) yw'r cam cyntaf, ond arwyddocaol, tuag at weithredu diwygiadau eang i lesddaliadau fel deiliadaeth. Drwy gyfyngu rhent tir i rhent hedyn pupur ar lesodded newydd, bydd y Bil yn amddiffyn lesddeiliaid rhag rhenti tir afresymol ac, ar yr un pryd, yn atal cartrefi rhag cael eu gwerthu ar sail lesddaliad er mwyn creu ffrwd incwm barhaus i'r rhydd-ddeiliad. Er nad yw'r Bil ei hun yn ymateb i argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio, mae'n paratoli'r ffordd ar gyfer Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad ehangach i weithredu'r diwygiadau hynny. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi ymrwymo i gyflwyno'r Bil hwn yn ddiweddarach yn y tymor Seneddol presennol. Er nad yw'r Bil ehangach hwn wedi'i ddrafftio eto, rhagwelir y bydd yn cynnwys darpariaethau i helpu i fynd i'r afael â materion rhent tir a wynebwr gan lesddeiliaid presennol. Pan gawn y Bil hwnnw, byddwn yn ei adolygu ac yn ystyried a oes angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

O ran argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn fwy cyffredinol, mae'r rhain yn deillio o dri phrosiect ar ddiwygio lesddaliadau a gynhaliwyd ar sail Cymru a Lloegr. Yn dilyn ymgynghoriad, daeth y Comisiwn i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth bod angen darpariaeth wahanol yn y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. O ystyried cymhlethdod y ddeddfwriaeth bresennol ar lesddaliadau, credaf ei bod yn fwy hwylus parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar y ddeddfwriaeth ddilynol hon ac iddi gael ei datblygu hefyd ar sail Cymru a Lloegr. Felly, mae fy adran yn gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith a Llywodraeth y DU i gyflawni hyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae adroddiadau Comisiwn y Gyfraith ar Ryddfrenio Lesddaliadau, yr Hawl i Reoli, ac Adfywio Cyfundaliadau yn nodi cynigion pellgyrhaeddol ar gyfer diwygio'r gyfraith lesddaliadau. Yn benodol, o ran yr hawl i ryddfrenio a'r hawl i reoli ar gyfer lesddeiliaid presennol, bydd yr argymhellion yn helpu i sicrhau bod yr hawliau hyn ar gael i fwy o lesddeiliaid nag ar hyn o bryd, a hefyd bod y broses o arfer yr hawliau hynny'n symlach, yn decach ac yn rhatach.

Mae cynigion y Comisiwn ar gyfer annog cyfundaliad fel dewis amgen ymarferol i lesddaliad ar gyfer perchnogaeth fflatiau, yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â diffygion yn y ddeddfwriaeth bresennol sydd wedi cyfrannu at y diffyg defnydd ohonynt hyd yn hyn. Yn ogystal, byddant yn ei gwneud yn haws i lesddeiliaid newid i gyfundaliad pe dymument, drwy sicrhau bod y dewis hwn ar gael i fwy o lesddeiliaid nag ar hyn o bryd, a hefyd yn gwneud y broses yn symlach, yn decach ac yn rhatach.

Ceir crynodeb o gynigion Comisiwn y Gyfraith [yma](#). Mae'r cynigion hyn wedi'u derbyn yn gyffredinol gan Lywodraeth Cymru ac fe'u hadlewyrchir yn ein [Rhaglen Lywodraethu](#) newydd. Yn bwysig, mae Comisiwn y Gyfraith yn cydnabod bod angen gwneud newidiadau i'r gyfraith lesddaliadol, megis lleihau rhenti tir i rhent hedyn pupur fel sy'n cael eu gweithredu drwy'r Bil presennol, er mwyn annog cyfunddeiliadaeth fel math o berchnogaeth. Heb newidiadau o'r fath, byddai'r enillion ariannol posibl i ddatblygwyr o'r model lesddaliadol yn parhau i gyfyngu ar dwf cyfundaliadau.

Ym mis Mai 2021, sefydlodd Llywodraeth y DU y [Cyngor Cyfundaliadau](#) - grŵp arbenigol y mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymwneud ag ef - i helpu i sicrhau bod cyfundaliadau'n cael eu defnyddio'n eang fel dewis amgen cadarnhaol yn lle lesddaliadau. Prif nod y Cyngor yw cynghori ar weithredu cyfundrefn cyfundaliadau ddiwygiedig a chyflwyno atebion i baratoi perchnogion tai a'r farchnad ar gyfer mabwysiadu cyfundaliadau yn eang ar gyfer fflatiau newydd. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i gynigion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio sut y gallai adeiladau lesddaliad presennol newid i gyfundaliad. Y nod cyffredinol yw ymestyn manteision perchnogaeth rhydd-ddaliadol i berchnogion fflatiau lle bo hynny'n bosibl. Mae'n annhebygol y bydd y cynigion yn arwain at ddiddymu lesddaliadau yn gyfan gwbl, gan y gallai fod rhai eithriadau cyfyngedig lle mai lesddaliad yw'r model mwyaf addas neu ymarferol sydd ar gael. Fodd bynnag, rwy'n rhagweld, unwaith y bydd y diwygiadau hyn yn cael eu gweithredu, mai ychydig iawn o dai neu fflatiau lesddaliad "newydd" a welwn.

Yn yr un modd â'r Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), mae diwygiadau posibl eraill i lesddaliadau nad ydynt yn ymateb yn uniongyrchol i gynigion Comisiwn y Gyfraith, ac mae'n bosibl y gellir cynnwys rhai o'r rhain hefyd yn y Bil pellach a gynlluniwyd i'w gyflwyno'n ddiweddarach yn y tymor Seneddol presennol. Yn yr un modd â'r Bil presennol, bydd fy adran yn gweithio'n agos â Llywodraeth y DU i sicrhau fod y ddeddfwriaeth yn cael ei chymhwyso i Gymru lle y byddai o fudd i lesddeiliaid yng Nghymru.

Un enghraifft o ddiwygiad o'r fath fyddai gwahardd defnyddio lesddaliad yn ddiangen ar gyfer tai. Ni wnaeth ein [hymchwil i werthu a defnyddio lesddaliadau yng Nghymru](#) nodi unrhyw fanteision i fod yn berchen ar dŷ lesddaliad, a chanfu fod lesddeiliaid tai a gymerodd ran yn yr ymchwil ar y cyfan yn fwy anfodlon na lesddeiliaid fflatiau. Yn wir, nododd yr ymchwil fod 'consensws cryf i roi terfyn ar werthu tai lesddaliad'. Daeth y [Grŵp Gorchwyl a Gorffen](#) annibynnol i'r casgliad hefyd fod tai'n cael eu cynnig fel lesddaliad 'heb unrhyw reswm y gellir ei gyfiawnhau' ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru 'ddeddfu i gyflwyno gwaharddiad ar y defnydd anghyfiawn o lesddaliad mewn tai newydd'. O ganlyniad, credaf fod achos cryf dros gyflwyno gwaharddiad statudol ar ddefnyddio lesddaliad yn ddiangen fel deiliadaeth ar gyfer tai yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi [ymrwymo i wahardd tai lesddaliad yn Lloegr](#), sefyllfa sydd hefyd yn cael ei chefnogi gan Gomisiwn y Gyfraith. Felly, byddwn yn disgwyl i'r ymrwymiad hwn gael ei ddarparu yn y Bil pellach.

Mae'n debygol hefyd y bydd rhai agweddau pwysig eraill ar ddiwygio lesddaliadau a fydd yn cael eu datblygu ar sail Cymru'n unig. Er enghraifft, rwy'n bwriadu cyflwyno trefn gofrestru a thrwyddedu newydd mewn perthynas â chynigion diogelwch adeiladau, a gyflwynir yn y Bil Diogelwch Adeiladu arfaethedig yn ystod tymor y Senedd hon. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ystyried sut y mae'r rhai sy'n rheoli adeiladu yn y dyfodol yn gweithio gyda phreswylwyr a lesddeiliaid ynghylch gwaith adferol a chostau gwasanaeth cysylltiedig.

Yn olaf, er bod gwelliannau Llywodraeth i'r Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), a gyflwynwyd ar 20 Gorffennaf, wedi dirprwyo rhai pwerau i Weinidogion Cymru ac wedi gwneud newidiadau priodol eraill, mae angen gwelliannau pellach yn fy marn i er mwyn i'r Bil weithio'n effeithiol. Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod yr angen am drafodaeth bellach ar hyn ac mae ein swyddogion yn gweithio'n agos ar welliannau priodol. Fodd bynnag, nid wyf yn rhagweld y bydd y rheini cael eu cyflwyno cyn diwedd mis Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr. Er y byddai Memorandwm atodol fel arfer yn cael ei osod o fewn pythefnos i gyflwyno unrhyw welliannau, y tro hwn rydym yn ymwybodol y bydd gwelliannau pwysig pellach yn cael eu cyflwyno ac felly, er mwyn bod yn fwy defnyddiol i aelodau, byddwn yn ceisio cyhoeddi Memorandwm atodol bryd hynny.

Yn gywir



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Llywodraeth Cymru

24 Medi 2021

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 22 Medi, trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir). Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ar gydsyniad deddfwriaethol, byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am gynnydd Llywodraeth Cymru ar y rhaglen diwygio cyfraith lesddaliad ehangach.

Mae gwaith diwygio lesddaliad yn faes sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor ac roedd cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio yn rhywbeth a godwyd gyda chi yn ystod y sesiwn graffu ar waith y Gweinidog ar 22 Medi 2021. Er ein bod yn croesawu'r penderfyniad i osod rhent tir ar lesioedd newydd i un hedyn pupur y flwyddyn, sy'n cyfyngu rhenti tir i ddim gwerth ariannol mewn gwirionedd, nodwn nad yw'r Bil yn gymwys i lesioedd presennol. Hefyd, nodwn nad yw'r Bil yn ymdrin â gwendidau eraill yn y system lesioedd, megis taliadau gwasanaeth a materion eraill y mae lesddeiliaid yn eu hwynebu. Felly, byddai o gymorth deall lle y mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi yn rhan o'r rhaglen diwygio cyfraith lesddaliad ehangach ac ymrwymiad y Rhaglen Llywodraethu i ddeddfu argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Yn y cyfarfod ar 22 Medi, gwnaethoch ddweud y bydd diwygiadau eraill i'r system diwygio lesioedd yn cael eu dwyn gerbron y Senedd. Er mwyn ein helpu i drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi mwy o fanylion am y diwygiadau hyn, gan

gynnwys amserlenni ac a fyddant yn cael eu gwneud drwy ddeddfwriaeth Cymru neu ragor o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Rydym yn deall y cyflwynwyd gwelliannau ar 20 Gorffennaf i'r Bil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud pwerau dirprwyedig. Mae Rheol Sefydlog 29.2(iii) yn darparu, pan gyflwynir diwygiadau perthnasol i Fil, y dylai Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol, fel arfer, gael ei osod o fewn pythefnos fan bellaf. Er mwyn i ni gynllunio ein dull o graffu, a wnewch gadarnhau pryd y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn cael ei osod?

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn 1 Hydref, fel y gellir ei drafod yn ein cyfarfod cyntaf ar 6 Hydref.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Ein cyf/Ein cyf JMEWL/2376/21

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

1 Hydref 2021

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 24 Medi, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 Llywodraeth y DU (y "Bil"). Rydych yn codi nifer o gwestiynau yn ymwneud â darpariaethau penodol yn y Bil, ac rwy'n ymateb iddynt isod.

Cymalau 1 (Cynlluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)

Nid yw Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chymalau 1 a 4 y Bil fel y'i cyflwynwyd. Ym mis Gorffennaf ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn nodi fy mhryderon am effaith ymarferol y cymalau hyn. Yn ôl asesiad fy Adran, byddai'r cymalau hyn yn berthnasol i ddarparwyr addysg bellach neu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru os bernir bod eu darpariaeth addysg dechnegol ôl-16 yn berthnasol i ardal benodol yn Lloegr. Gallai hyn olygu bod dyletswyddau yn cael eu gosod ar sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg yng Nghymru yn unig, y mae myfyrwyr o Loegr yn cael mynediad ati os yw'r ddarpariaeth yn berthnasol i ardal benodol yn Lloegr.

Ni fyddwn yn disgwyl i ddyletswyddau gael eu gosod ar ddarparwyr yng Nghymru mewn perthynas â darpariaeth a gyflwynir yng Nghymru, gan y gallai dyletswyddau o'r fath ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau yng Nghymru roi sylw i anghenion sgiliau cyflogwyr yn Lloegr ar yr un pryd ag ymateb i anghenion sgiliau cyflogwyr Cymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Yn benodol, nid wyf am i unrhyw sefydliadau yng Nghymru nad ydynt yn derbyn cyllid gan yr Ysgrifennydd Gwladol fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau i roi sylw i Gynlluniau Gwella Sgiliau Lleol yn Lloegr. Felly, byddwn yn disgwyl i welliannau gael eu gwneud mewn perthynas â chymalau 1 a 4 sy'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn ac i gyfyngu'r rhain i sefydliadau yng Nghymru sy'n cael arian gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn dilyn fy llythyr, cafwyd trafodaethau cynhyrchiol ar lefel swyddogion sydd wedi llywio'r Adran Addysg yn ei bwriad i gyflwyno gwelliannau mewn perthynas â chymalau 1 a 4. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn aros i weld y gwelliannau arfaethedig ynghylch perthynas cynlluniau gwella sgiliau lleol â sefydliadau yng Nghymru. Rhagwelaf y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifennu ataf ar y mater hwn cyn gosod gwelliannau ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Yn amodol ar asesiad o ran cymhwysedd deddfwriaethol o effaith y gwelliannau hynny, bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei ddiweddarau maes o law.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymal 14 (Cefnogaeth ar gyfer dysgu gydol oes)

Mae bwriadau polisi Llywodraeth y DU o ran cyflwyno Hawl i Fenthyciad Gydol Oes wedi'u nodi yn eu papur gwyn *Skills for jobs: lifelong learning for opportunity and growth*. Ceir rhagor o fanylion am y cynigion yn yr [Aseiad Effaith](#) sy'n cyd-fynd â'r Bil, sy'n nodi: “*The current student finance system is underpinned by primary and secondary legislation. The government seeks to modify existing regulation-making powers in primary legislation to make specific provision for student finance in respect of modules of courses.*” Mae'r Aseiad Effaith hefyd yn nodi “*In order to introduce the LLE from 2025, secondary legislation will need to be laid in Parliament by summer 2024. We will consult on the detail and scope of the LLE this year.*”

Nid yw pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu newid gan yr addasiadau arfaethedig i adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 fel y darperir ar eu cyfer gan gymal 14 y Bil. Mae'r rhesymau dros hyn fel a ganlyn. Mae cymal 14 yn diwygio Deddf 1998 i ddarparu esboniad i adran 22 y Ddeddf honno (sy'n bŵer galluogi ar gyfer gwneud y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru a Lloegr) fel bod modiwlau o gyrsiau addysg uwch (ac nid dim ond y cyrsiau hyn yn eu cyfanrwydd) yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Dim ond i'r graddau y mae swyddogaethau yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol y mae'r esboniad yn effeithiol. Mae rhai o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn arferadwy mewn perthynas â Chymru ochr yn ochr â Gweinidogion Cymru, er nad oes yr un o'r swyddogaethau hynny'n destun gwelliannau testunol i'w gwneud gan y Bil. Fodd bynnag, dim ond swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol sydd i'w diwygio, a gadewir swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr fel y maent.

Mae swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gwneud rheoliadau o dan adran 22(1) sy'n awdurdodi cynnig grantiau neu fenthyciadau mewn cysylltiad â modiwlau cyrsiau AU neu AB yn arferadwy mewn perthynas â Lloegr yn unig. Mae'r angen am gydsyniad deddfwriaethol yn deillio o'r ffaith bod pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wedi'u gwahanu mewn ffordd anghyflawn pan ddatganolwyd y swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr i Gymru o dan Ddeddf 1998.

Os caiff y Bil ei basio, ni fydd pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 22 Deddf 1998 yr un fath â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd pwerau Gweinidogion Cymru yn parhau fel y maent ar hyn o bryd ac yn berthnasol i gyrsiau cyfan ond nid i fodiwlau cyrsiau o'r fath. Yn fy llythyr dyddiedig 9 Gorffennaf at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, nodais mai drwy Fil Senedd y dylid cyflawni darpariaeth o'r fath mewn perthynas â Chymru. Yn ogystal, dywedais wrth yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Gorffennaf y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o fanylion am gynigion Llywodraeth y DU i gyflwyno Hawl i Fenthyciad Gydol Oes, ac y byddwn yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y bydd yr hawl arfaethedig yn effeithio ar symiau canlyniadol cyllidebol, a sut y gallai benthyciadau ar gyfer yr Hawl i Fenthyciad Gydol Oes fod ar gael i Lywodraeth Cymru.

Hyd yma, nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei chynigion manwl ynghylch gweithredu a chyflwyno'r Hawl arfaethedig i Fenthyciad Gydol Oes, ac nid wyf wedi cael unrhyw wybodaeth bellach am y cynigion hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Cyfeiriwyd at y mater yn ystod fy sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 23 Medi lle nodais y bydd cyngor yn cael ei ddarparu ar y Memorandwm ar ôl i'r trafodaethau gyda Llywodraeth San Steffan ddod i ben.

Cymal 18 (Rhestr o ddarparwyr perthnasol)

Yn ôl [Nodiadau Esboniadol](#) y Bil, mae cymalau 18 i 21 yn gwneud y canlynol: “*enable the Secretary of State to make regulations to provide for a list of post-16 education or training providers, in particular Independent Training Providers (“ITPs”), to indicate which providers*”

have met conditions that are considered to prevent or mitigate risks associated with the disorderly exit of a provider from the provision of education and training. Education or training is funded by various funding authorities.”

Mae cymal 18 yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth: (a) i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw rhestr o ddarparwyr perthnasol mewn perthynas ag addysg neu hyfforddiant perthnasol sy'n bodloni'r amodau a bennir yn y rheoliadau i fod ar y rhestr mewn perthynas â'r addysg neu'r hyfforddiant hwnnw; (b) mewn perthynas â'r rhestr.

Diben y rhestr yw atal awdurdodau cyllido rhag ymrwymo i drefniadau cyllido gyda darparwyr nad ydynt wedi'u rhestru (a 'rheoleiddio' trefniadau cyllido) – gweler cymal 19. Mae effaith y diffiniad o “ddarparwr hyfforddiant perthnasol” (“*relevant training provider*”) yng nghymal 18 yn golygu y gallai rhai darparwyr addysg a hyfforddiant annibynnol yng Nghymru ddod o fewn cwrpas y pŵer i wneud rheoliadau. Gallent, er enghraifft, gynnwys darparwyr hyfforddiant preifat sy'n gweithredu yng Nghymru sy'n cynnig darpariaeth addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn Lloegr. Fodd bynnag, dim ond i'r graddau y cânt eu cyllido gan bersonau yn Lloegr (gweler cymal 19(7)) ac mewn perthynas â darparu addysg a hyfforddiant yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr. Yn fy marn i, nid yw cymalau 18 i 21 felly yn gyfystyr â "darpariaeth berthnasol" (“*relevant provision*”) o fewn ystyr Rheol Sefydlog 29.1, ac o ganlyniad nid oes angen cydsyniad y Senedd. Mae cymal 20 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer dehongli cymalau 18 ac 19. Mae cymal 21 yn gwneud darpariaethau 'atodol' a gweithdrefnol mewn perthynas â rheoliadau o dan gymalau 18 ac 19.


Cymal 25 (Sefydliadau yn y sector addysg bellach: gweithdrefn ar gyfer dynodi)

Mae cymal 25 yn diwygio Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac mae'n berthnasol i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud unrhyw newidiadau i'r gyfraith - egluro y mae ac ailddatgan y gyfraith mewn perthynas â Chymru, ac yn fy marn i nid oes angen cydsyniad y Senedd.

Oedi cyn gosod y Memorandwm

Mae'n bwysig bod unrhyw ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar addysg bellach ac uwch yng Nghymru yn ystyried y cyd-destun Cymreig penodol. Bu oedi cyn gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn oherwydd yr angen i ystyried y goblygiadau cyfreithiol a pholisi i Gymru sy'n deillio o ddarpariaethau cymhleth y Bil a thrafod gyda Whitehall yr effaith y gall darpariaethau drafft ei chael mewn perthynas â Chymru.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Lesley Griffiths AS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

23 Mawrth 2021

Annwyl Lesley,

Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) Llywodraeth y DU

Rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu), yr ydym wedi'i osod heddiw.

Fel y gwyddoch, fe wnaethom ni fynegi pryderon yn ystod y Pumed Senedd ynghylch i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnig bod Senedd y DU a Llywodraeth y DU yn deddfu mewn meysydd datganoledig. Mae paragraffau 21 i 23 ein hadroddiad yn codi'r pryderon hyn unwaith eto. Mae'n arbennig o siomedig bod cydsyniad yn cael ei geisio ar ddiwedd y Senedd ar gyfer Bil dau gymal mewn maes polisi y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn flaenoriaeth. Fel y nodwn yn yr adroddiad, gan na na fydd cynnig cydsyniad yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â'r Bil cyn y toriad a'r diddymiad, mae hwn yn fater a all ddod gerbron y Chweched Senedd os bydd Llywodraeth Cymru nesaf yn bwrw ymlaen fel hyn.

Rydym wedi bod yn ystyried ein holl waith craffu at ddibenion ein Hadroddiad Gwaddol. Wrth wneud hynny, rydym yn nodi ein bod yn aml wedi gorfod mynegi'r pryderon hyn ar faterion yn eich portffolio.

Mae'r dadleuon rydych chi wedi'u cyflwyno o blaid deddfu gan Senedd y DU a Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig yn aml wedi canolbwyntio ar faterion eglurder a hygyrchedd y gyfraith neu sicrhau cydnawsedd â pholisi yn Lloegr. Dadleuon yw'r rhain o blaid peidio â dal pwerau yn y maes hwn o gwbl ac, yn ein barn ni, nid oes rhinwedd iddynt.

Rydym yn pryderu am yr effaith gronol sylweddol a niweidiol yn sgil penderfyniadau olynol, sy'n golygu bod Senedd y DU a Llywodraeth y DU bellach yn deddfu'n helaeth ar faterion datganoledig yn eich portffolio.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddDCC@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddLJC@senedd.wales

 0300 200 6565

Bydd ein Hadroddiad Gwaddol yn tynnu sylw at y materion hyn a byddwn yn annog y Pwyllgor sy'n ein holynu i fonitro'r defnydd o'r dull deddfwriaethol hwn yn y Senedd nesaf.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd – y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru

04 Hydref 2021

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Medi ar Ddiogelu Gwybodaeth Gyfrinachol – cytundebau y DU/Estonia, y DU/Latfia, y DU/Gwlad Belg a'r DU/yr Eidal.

Ein asesiad cyfreithiol o'r cytundebau hyn yw eu bod yn ymwneud â rhannu data a diogelwch cenedlaethol a'u bod felly yn faterion a gadwyd yn ôl.

Mae'r darpariaethau sylweddol yn rhai lefel uchel ac mae'n debygol y byddai angen trefniadau gweithredu mewn perthynas â chyfnewidiadau penodol. Mae'r cytundebau'n ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau cenedlaethol, a dylem ystyried a ydynt yn gwrthdaro â'r rhain. Rydym o'r farn nad ydynt yn gwrthdaro â deddfwriaeth diogelu data'r DU.

Gan ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried rhwymedigaethau rhyngwladol wrth wneud penderfyniadau, gallent wynebu Adolygiad Barnwrol neu gamau gan yr Ysgrifennydd Gwladol am fethu â gwneud hynny.

O ran ymgynghori, pe bai'r cytundebau'n cael effaith ar faterion datganoledig, byddai gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb dilys yn y rhannau hynny o'r trafodaethau ac felly byddai disgwyl y byddai ymgynghori'n digwydd â hi. Yn ein barn ni, mae'r cytundebau hyn yn rhai

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 182
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

lefel uchel ac yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl felly nid oes disgwyl bod ymgynghori'n digwydd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS

Prif Weinidog Cymru

20 Medi 2021

Annwyl Mark

Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol: cytundebau y DU/Estonia, y DU/Latfia, y DU/Gwlad Belg a'r DU/yr Eidal

Byddwch yn gwybod mai y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ein cyfarfod ar 13 Medi 2021 gwnaethom ystyried pedwar cytundeb rhyngwladol rhwng y DU ac aelod-wladwriaethau unigol yr UE (y DU/Estonia, y DU/Latfia, y DU/Gwlad Belg ac y DU/Yr Eidal) ar ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol.

Bydd y cytundebau hyn yn darparu sylfaen gyfreithiol ar gyfer diogelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gyfnewidir rhwng y DU ac Estonia, y DU a Latfia, y DU a Gwlad Belg a'r DU a'r Eidal, a allai gynnwys pynciau fel amddiffyn, gorfodi'r gyfraith, gwrthderfysgaeth a diogelwch.

Yn ystod ein hystyriaeth cytunwyd i ofyn am asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau'r cytundebau, os o gwbl, i Gymru a'i chontractwyr, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â chasgliad Llywodraeth y DU nad oes gan y cytundebau 'ddim goblygiadau i'r gweinyddiaethau datganoledig'. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon eich ymateb erbyn 30 Medi.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon